**Gwahoddiad i Dendro i Ddarparu Gwasanaethau Mynediad ar S4C**

| | |
|---|---|
| Cyhoeddwyd: | 23/09/2026 |
| Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am eglurhad: | 02/10/2026 |
| Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r tendr: | 12:00, 20/11/2026 |

**Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon yn gwahodd tendrau gan unigolion, cwmnïau a sefydliadau ("Tendrwyr") y mae ganddynt ddiddordeb mewn cyflenwi ac sy'n gallu cyflenwi Gwasanaethau Mynediad i S4C fel y disgrifir yn fwy penodol yn y tudalennau nesaf.

Mae'r Gwahoddiad i Dendro (GID) hwn yn cynnwys y rhannau canlynol:

| | |
|---|---|
| Rhan 1 | Gwybodaeth Gefndirol |
| Rhan 2 | Gwybodaeth Benodol am y Cytundeb |
| Rhan 3 | Gwybodaeth i'w chynnwys mewn Ymatebion i'r Tendr |
| Rhan 4 | Amlinelliad o'r Broses Dendro a Cheisiadau am Wybodaeth Bellach |
| Rhan 5 | Meini Prawf Gwerthuso a Dyfarnu'r Cytundeb |
| Rhan 6 | Nodiadau Cyfreithiol |

Atodiad 1 - Cytundeb Drafft

Atodiad 2 - Matrics Gwerthuso

Atodiad 3 - Manylion Lotiau Gwasanaethau Mynediad

Lot 1: Gwasanaeth Isdeitlo S4C;

Lot 2: Gwasanaeth Sain Ddisgrifiad S4C;

Lot 3: Gwasanaeth Arwyddeg ar y Sgrin (BSL) S4C.

Atodiad 4 - Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol

**Darllenwch y Gwahoddiad i Dendro hwn yn ofalus. Efallai na chaiff ymatebion i'r Tendr nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Gwahoddiad i Dendro hwn eu gwerthuso fel rhan o'r broses dendro hon.**

**Noder bod y broses dendro hon, gan gynnwys y Gwahoddiad i Dendro hwn, yn amodol ar y nodiadau cyfreithiol a nodir yn Rhan 6.**

## Rhan 1 Gwybodaeth Gefndirol

### 1.1 S4C

S4C yw'r unig wasanaeth darlledu teledu yn y Gymraeg ac un o'r pum sefydliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Mae'n awdurdod darlledu annibynnol a sefydlwyd o dan Ddeddf Darlledu 1981, ac yn cael ei reoleiddio gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Darlledu 1990.

Mae S4C yn darparu ystod eang o raglenni amrywiol o safon uchel yn y Gymraeg, dros 115 awr yr wythnos, wedi'u darlledu ar Sky, Freeview, Virgin, Teledu Clyfar ac ar gael i'w gwylio'n fyw ac ar alw ar S4C Clic, BBC iPlayer, YouTube ac ar lwyfannau eraill. Mae S4C hefyd yn cyhoeddi cynnwys ffurf fer drwy gyfryngau cymdeithasol, ac mae ganddi wasanaeth newyddion digidol - Newyddion S4C.

Am ragor o wybodaeth am S4C, cyfeiriwch at yr Adroddiad Blynyddol 2025/2026 a strategaeth 'Mwy na sianel deledu' 2025 S4C, sydd ar wefan S4C (s4c.cymru).

### 1.2 Partneriaeth S4C a'r BBC

Mae holl gefnogaeth darlledu a thechnegol S4C yn cael ei darparu i S4C gan y BBC o'r Sgwâr Canolog, Caerdydd.

Mae S4C yn parhau'n gyfrifol am elfennau amserlennu a golygyddol cynnwys S4C, yn ogystal â'r gwasanaethau sy'n mynd allan i dendr o dan y Gwahoddiad i Dendro hwn ("y Gwasanaethau").

### 1.3 Gwybodaeth am Gefndir y Cytundeb Penodol

Caiff gofynion S4C o ran gwasanaethau mynediad eu bodloni ar hyn o bryd o dan delerau cytundebau ar wahân a ddaw i ben ar 26 Chwefror 2027. Wrth osod cytundeb(au) newydd mae S4C yn dymuno cynnal ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd elfennau o'r gwasanaeth yn newid.

Nodir rhagor o wybodaeth am y cytundeb a gofynion S4C yn Rhan 2.

## Rhan 2 Gwybodaeth am y Cytundeb Penodol

### 2.1 Gofynion S4C

Mae S4C yn dymuno ymrwymo i un cytundeb neu fwy ar gyfer y gwasanaethau canlynol. Mae tendrau'n cael eu gwahodd ar gyfer un neu fwy o Lotiau unigol (contractau).

Mae'r Gwasanaethau wedi'u rhannu i'r Lotiau (contractau) canlynol:

**Lot 1** **Gwasanaeth Isdeitlo S4C;**

**Lot 2** **Gwasanaeth Sain Ddisgrifiad S4C;** a

**Lot 3** **Gwasanaeth Arwyddeg ar y Sgrin (BSL) S4C.**

Caiff Tendrwyr gyflwyno tendr am unrhyw nifer o Lotiau neu gyfuniad o Lotiau unigol (i gyd yn "Lot" neu gyda'i gilydd yn "Lotiau").

Efallai y bydd Tendrwyr eisiau cynnig pris is am becyn o Lotiau, a chaniateir hyn – mae rhagor o fanylion ar gael yn Rhan 3.2.

Mae disgrifiad pellach o bob un o'r Lotiau ar gael yn Atodiad 3.

### 2.2 Hyd a Thelerau'r Cytundeb

Mae'r cytundeb drafft i'w weld yn Atodiad 1.

Caiff S4C ymrwymo i un cytundeb ag un cyflenwr ar gyfer y tri Lot neu sawl cytundeb â sawl cyflenwr gwahanol ar gyfer un neu ddau Lot yr un.

<u>Hyd y Cytundeb(au)</u>

Bydd y cytundeb yn para am gyfnod o bedair blynedd gyda'r opsiwn i'w ymestyn am hyd at ddau gyfnod o 12 mis arall.

<u>Adolygu Perfformiad</u>

Bydd yn ofynnol i'r Tendrw(y)r llwyddiannus gyfarfod â S4C bob chwarter i adolygu ei berfformiad/eu perfformiad o dan y cytundeb(au) a gwneud newidiadau os bydd angen. Bydd y cyfarfodydd hyn hefyd yn gyfle i flaengynllunio ar gyfer gofynion y gwasanaethau yn ystod y chwarter nesaf.

Bydd S4C yn adolygu'r cytundeb(au) a pherfformiad y Tendrw(y)r llwyddiannus ar ôl y tri mis cyntaf ac yn cadw'r hawl i derfynu'r cytundeb(au) ar ddiwedd y cyfnod hwn, ar ôl adolygiad o'r fath. Bydd yr adolygiad hwn yn ychwanegol at unrhyw adolygiadau rheolaidd y darperir ar eu cyfer yn y cytundeb(au).

<u>Hawliau</u>

Bydd yr hawlfraint a phob hawl arall yn y gwaith a grëir ac a gyflenwir gan y Tendrw(y)r llwyddiannus wrth ddarparu'r gwasanaethau yn cael eu haseinio i S4C.

Ni chaniateir trafodaeth ar y cytundeb drafft. Dim ond diwygiadau i'r cytundeb drafft er mwyn adlewyrchu'r ymateb llwyddiannus i'r tendr a/neu egluro telerau'r cytundeb drafft

a ganiateir. Drwy gyflwyno tendr mae Tendrwyr yn cytuno, os byddant yn llwyddiannus, i ymrwymo i gytundeb â S4C ar y ffurf a nodir yn Atodiad 1. Gofynnir i Dendrwyr nodi yn y cyd-destun hwn ddarpariaethau Rhan 6.3.

### 2.3 Gwarant Rhiant-gwmni a Chonsortia

Noder y gall S4C ofyn i'r Tendrw(y)r llwyddiannus roi gwarant rhiant-gwmni. Os bydd consortiwm yn cyflwyno tendr sy'n dderbyniol i S4C, caiff S4C yn ôl ei disgresiwn ofyn am y canlynol: (i) bod y consortiwm yn ffurfio endid cyfreithiol cyn ymrwymo i'r cytundeb; a/neu (ii) cyd-atebolrwydd ac atebolrwydd unigol pob aelod o'r consortiwm; a/neu (iii) gwarantau a/neu ymgymeriadau gan rai o aelodau'r consortiwm neu bob aelod o'r consortiwm mewn perthynas â rhai o aelodau eraill y consortiwm neu bob aelod ohono.

### 2.4 Gofynion Staffio

Mae S4C yn gofyn am gyswllt cyson fel deiliad perthynas y contract.

### 2.5 Cynllun Parhad Busnes

Fel rhan o'r ymateb, dylai'r Tendrwr llwyddiannus ddarparu manylion cynllun parhad busnes.

### 2.6 Trosglwyddo/Cyfnod Sefydlu

Bydd y darparwr presennol yn darparu trosglwyddiad o ddarpariaethau'r gwasanaethau.

**Rhan 3 Gwybodaeth i'w Chynnwys mewn Ymatebion i'r Tendr**

## 3.1 Gwybodaeth Ofynnol

Dylai Tendrwyr roi'r wybodaeth ganlynol fel rhan o'r ymateb i'r tendr er mwyn dangos yn fanwl sut y bydd yn bodloni gofynion S4C:

3.1.1 **Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol** wedi'i chwblhau ar y ffurf a nodir yn Atodiad 4.

3.1.2 Datganiad clir ynghylch y **Lot neu'r Lotiau** y mae'r tendr yn ymwneud ag ef neu hwy:

Lot 1 Gwasanaeth Isdeitlo S4C

Lot 2 Gwasanaeth Sain Ddisgrifiad S4C; a/neu

Lot 3 Gwasanaeth Arwyddeg ar y Sgrin (BSL) S4C.

3.1.3 **Datganiad methodoleg** sy'n nodi sut y bydd y gwasanaethau sy'n ofynnol gan bob Lot, fel y disgrifir yn Atodiad 3 ac yn unol â'r meini prawf dyfarnu yn Rhan 5.2, yn cael eu darparu, gan gynnwys diagramau llif gwaith priodol a/neu ddisgrifiad o'r modd y bydd darpariaeth y gwasanaeth(au) yn cael ei sicrhau.

3.1.4 Manylion y **ffi(oedd)** sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth(au) i S4C ynghyd ag amserlen dalu arfaethedig. Gweler Rhan 3.2 am ragor o wybodaeth.

3.1.5 Unrhyw sylwadau cyfreithiol sy'n deillio o'r Nodiadau Cyfreithiol yn Rhan 6 a Cytundeb Drafft a nodir yn Atodiad 1.

Caiff Tendrwyr gynnwys gwybodaeth ychwanegol lle y bo'n berthnasol i'w hymatebion i'r Tendr, ond ni ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth amherthnasol na ofynnwyd amdani'n benodol neu nad yw'n ofynnol gan y Gwahoddiad i Dendro gan gynnwys, er enghraifft, llenyddiaeth werthu a thelerau masnachu safonol.

Mae'n rhaid i ymatebion i'r tendr fod yn agored am gyfnod o dri mis o'r dyddiad cyflwyno ymatebion i'r tendr.

Os bydd y Tendrwr (neu, yn achos ymateb i'r tendr a gyflwynir gan gonsortiwm, unrhyw aelod o'r consortiwm) yn dod i wybod ar unrhyw adeg bod unrhyw wybodaeth a roddwyd ganddo (neu, yn achos ymateb i'r tendr a gyflwynir gan gonsortiwm, unrhyw aelod o'r consortiwm) i S4C mewn cysylltiad â'r broses dendro hon yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd neu nad yw'n gywir mwyach, mae'n rhaid hysbysu S4C ar unwaith.

## 3.2 Ffi

Mae S4C yn gofyn i'r ffi am y gwasanaethau gael ei darparu fel ffi benodol yr awr, i gynnwys yr holl gostau sefydlu, rheoli cyfrif, gweinyddu, staffio a chyfarfodydd, a'r holl gostau a threuliau eraill y mae'n rhaid eu talu er mwyn darparu'r gwasanaeth. Rhaid mynegi'r ffi benodol hon mewn punnoedd sterling, neu ei throsi i bunnoedd sterling, ac eithrio TAW a rhaid i'r ffi aros yr un fath am hyd y contract (yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau yn y Cytundeb sy'n ymwneud â mynegeio).

Mewn perthynas â Lot 1 – Gwasanaeth Isdeitlo S4C, dylid darparu ffi penodedig fesul awr ar wahân ar gyfer pob elfen isdeitlo:

Isdeitlau Cymraeg
Isdeitlau Saesneg
Isdeitlau Cymraeg byw
Isdeitlau Saesneg byw
Darparu a gwiriadau cywirdeb Ffeiliau Isdeitlau ar gyfer creu fersiynau 'storio ar fideo' (BIST).

Bydd S4C yn darparu'r feddalwedd Wincaps sydd ei hangen ar gyfer peiriannau sydd wedi'u lleoli yn Sgwâr Canolog y BBC a ddefnyddir yn ystod gofynion isdeitlo byw.

Bydd y ffioedd penodol fesul awr ar gyfer pob elfen isdeitlo yn cael eu hychwanegu at ei gilydd i bennu cyfanswm pris ar gyfer Lot 1 a bydd cyfanswm y pris hwn yn cael ei werthuso yn unol â Rhan 5.2 isod.

Dylai'r Tendrwyr ddatgan yn glir y ffi yr awr ar gyfer pob Lot a'r amserlen dalu a awgrymir. Rhaid prisio pob Lot ar wahân.

Amcangyfrif yw'r oriau hyn a ddefnyddir at ddibenion pennu gwerth blynyddol i'r Gwasanaeth yn unig. Nid yw S4C yn ymrwymo i isafswm o oriau ar gyfer unrhyw elfen o'r Gwasanaethau. Gall yr oriau blynyddol hefyd amrywio i sicrhau cydymffurfiaeth â cwotâu Ofcom.

| | |
|---|---|
| Lot 1 | |
| Isdeitlo Cymraeg | 700 awr |
| Isdeitlo Saesneg | 625 awr |
| Isdeitlo Byw – Cymraeg | 477 awr |
| Isdeitlo Byw – Saesneg | 250 awr |
| BIST | 120 awr |
| | |
| Lot 2 | |
| Sain Ddisgrifiad | 240 awr |
| | |
| Lot 3 | |
| Arwyddeg | 130 awr |

Os yw Tendrwyr eisiau darparu dau bris ar gyfer Lotiau e.e. un pris os mai dim ond un Lot fydd y Tendrwr yn ei ennill ac ail bris os dyfernir mwy nag un Lot i'r Tendrwr hwnnw, bydd gostyngiadau o'r fath yn cael eu hystyried wrth gymharu costau'r tendr.

### 3.3 Uchafswm Nifer y Geiriau

Dylai Tendrwyr geisio bod yn gryno wrth ddrafftio eu hymatebion i'r GID yma. Ni ddylai ymateb i'r GID yma fod yn hirach na 5,000 o eiriau o hyd ar gyfer pob Lot (ac eithrio'r Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol). Mae S4C yn cadw'r hawl i eithrio o'r broses dendro unrhyw ymateb i'r GID nad sydd yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.

Nid yw'r uchafswm geiriau uchod yn cynnwys unrhyw eiriau sydd o fewn unrhyw luniau, diagramau neu graffiau a gynhwysir o fewn a/neu a atodir i'r brif ddogfen ymateb tendro.

**Rhan 4 Amlinelliad o'r Broses Dendro a Cheisiadau am Wybodaeth Bellach**

**4.1 Amlinelliad o'r Broses Dendro**

Bydd y broses dendro hon yn cynnwys y camau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Cam 1 | Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am eglurhad | 12:00, 02/10/2026 |
| Cam 2 | Darparu ymatebion i geisiadau am eglurhad | 16/10/2026 |
| Cam 3 | Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r tendr | 12:00, 20/11/2026 |
| Cam 4 | Dechrau gwerthuso'r ymatebion i'r tendr * | 20/11/2026 |
| | Cyfweliadau (os oes angen) * | 30/11/2026 - 04/12/2026 |
| Cam 5 | Cyhoeddi canlyniadau'r gwerthusiad * | 11/12/2026 |
| Cam 6 | Llofnodi'r cytundeb * | 18/12/2026 |

Nodwch y gall dyddiadau â * newid.

**4.2 Cyflwyno Ymatebion i'r Tendr**

Mae'n ofynnol i Dendrwyr gyflwyno ymateb i'r tendr yn unol â gofynion y Gwahoddiad i Dendro hwn ar ffurf electronig erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r tendr a nodir yn Rhan 4.1 uchod.

Dylid nodi **Tendr Gwasanaethau Mynediad S4C** yn glir ar ymatebion i'r tendr a'u hanfon drwy e-bost i: **tendr@s4c.cymru**

Gellir cyflwyno tendrau yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd tendr a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

NI FYDD YMATEBION TENDRO A DDERBYNNIR AR ÔL Y DYDDIAD CAU A NODIR YN RHAN 4.1 UCHOD NAC A DDERBYNNIR GAN S4C I UNRHYW GYFEIRIAD AR WAHÂN I'R UN A NODIR UCHOD YN CAEL EU HYSTYRIED, A BYDD UNRHYW YMATEBION TENDRO O'R FATH YN CAEL EU HEITHRIO O'R BROSES DENDRO HON.

Nid yw S4C yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddiffygion unrhyw system ddosbarthu nac am unrhyw ymatebion i'r tendr a gaiff eu colli, eu hoedi neu sy'n ddiffygiol. Cyfrifoldeb Tendrwyr yw sicrhau bod eu hymatebion i'r tendr (ac unrhyw atodiadau) yn cael eu paratoi mewn da bryd (gan ystyried unrhyw absenoldebau staff neu fethiannau technegol posibl) ac yn cael eu cyflwyno cyn y dyddiad cau a nodir ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r tendr yn Rhan 4.1 uchod.

Noder mai 20Mb yw'r uchafswm y gall S4C ei dderbyn ar ffurf e-bost ac mai Word, Excel, PDF a Jpeg yw'r fformatau ffeil a ganiateir. Mae'n dderbyniol cyflwyno'r fformatau hyn fel Ffeiliau Zip. Dylai Tendrwyr fod yn ymwybodol y gall eu Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd (ISP) bennu terfynau is o ran uchafswm maint negeseuon e-bost ac felly fe'u cynghorir i holi eu Darparwr neu eu hadran TG eu hunain mewn da bryd cyn y dyddiad cau ar gyfer anfon ymatebion i'r tendr.

Ni fydd prawf bod deunydd wedi cael eu hanfon yn brawf eu bod wedi dod i law felly cynghorir Tendrwyr i ofyn am gydnabyddiaeth eu bod wedi dod i law mewn neges e-bost ar wahân.

### 4.3 Ystyried Ymatebion i’r Tendr a Rhoi Gwybod am y Canlyniad

Bydd S4C yn ystyried yr holl ymatebion i’r tendr a ddaw i law S4C yn unol â’r gofynion a nodir yn y Gwahoddiad i Dendro hwn a’r holl wybodaeth a roddir yn y cyfweliad, os cynhelir, yn unol â’r weithdrefn a’r meini prawf a nodir yn Rhan 5 isod.

### 4.4 Egluro Ymatebion i’r Tendr a Chyfweliadau

Efallai y bydd S4C yn gofyn i Dendrwyr roi rhagor o wybodaeth a/neu egluro unrhyw faterion a geir yn eu hymatebion i’r tendr.

Efallai y bydd S4C yn gofyn i Dendrwyr fynychu cyfweliadau yng Nghaerdydd er mwyn egluro manylion a nodir yn y ddogfen ymateb i’r Tendr, er mwyn esbonio sut mae’r Tendrwr yn bwriadu cyflawni pob Lot a gynhwysir yn y tendr a rhoi cyflwyniad. Gellir cynnal y cyfweliad yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Os byddwch yn dewis cyfweliad Cymraeg, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu o’r Gymraeg i’r Saesneg os bydd angen.

Ar ôl cwblhau unrhyw gyfweliadau, gall S4C gadarnhau, cynyddu neu ostwng sgoriau Tendrwr, lle bo'n briodol, i adlewyrchu gwell dealltwriaeth y gwerthuswyr o ymateb tendr y Tendrwr.

Mae S4C yn cadw'r hawl i beidio â chynnal cyfweliadau lle mae'n penderfynu bod digon o wybodaeth wedi'i darparu yn y cyflwyniad ysgrifenedig.

### 4.5 Ceisiadau am Ragor o Wybodaeth

Mae’n rhaid i unrhyw gysylltiad mewn perthynas â’r broses dendro hon gan gynnwys unrhyw geisiadau am ragor o wybodaeth a/neu ganllawiau i gwblhau ymatebion i’r tendr fod drwy e-bost i S4C yn **tendr@s4c.cymru**

Ni ddylai Tendrwyr ganfasio na cheisio gwybodaeth mewn unrhyw ffordd mewn perthynas â’r broses dendro hon gan unrhyw un o swyddogion, cyflogeion, asiantau neu gynghorwyr S4C.

Anogir Tendrwyr i nodi unrhyw wybodaeth bellach a/neu ganllawiau a allai fod eu hangen arnynt mewn cysylltiad â’r broses dendro hon cyn gynted â phosibl. Nodir y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau am ragor o wybodaeth a/neu ganllawiau yn 4.1 uchod. Ni fydd unrhyw geisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau hwn yn cael eu hystyried. Bydd S4C yn ceisio ymdrin yn brydlon â phob cais a ddaw i law cyn y dyddiad cau hwn.

Er tegwch a thryloywder noder y caiff pob cais am ragor o wybodaeth a/neu ganllawiau mewn perthynas â’r broses dendro hon ac ymatebion S4C i geisiadau o’r fath eu datgelu i bob Tendrwr.  Gwneir pob datgeliad o’r fath drwy gyhoeddi ymatebion o’r fath ar wefan S4C yn http://www.s4c.cymru/tendrau/c_index.shtml

Os bydd Tendrwyr o’r farn bod unrhyw gais am ragor o wybodaeth a/neu ganllawiau a wneir ganddynt yn fasnachol sensitif, mae’n rhaid iddynt nodi “masnachol sensitif” yn glir arno a rhoi’r rhesymau pam maent o’r farn ei fod yn fasnachol sensitif. Fodd bynnag, noder mai S4C fydd yn penderfynu, yn ôl ei disgresiwn yn unig, a oes unrhyw gais o’r

fath yn fasnachol sensitif. Os bydd S4C yn penderfynu bod cais yn fasnachol sensitif ni fydd S4C yn datgelu'r cais na'i hymateb i gais o'r fath i Dendrwyr eraill. Os bydd S4C yn penderfynu nad yw cais yn fasnachol sensitif bydd yn hysbysu'r Tendrwr. Os bydd y Tendrwr yn cytuno nad yw'r cais yn fasnachol sensitif bydd S4C yn ymateb i'r cais a bydd ganddi'r hawl i ddatgelu'r cais a'i hymateb iddo i bob Tendrwr. Os na fydd y Tendrwr yn cytuno nad yw'r cais yn fasnachol sensitif neu os na fydd yn hysbysu S4C ynghylch a yw'n cytuno ai peidio o fewn un diwrnod gwaith, bernir bod y cais wedi'i dynnu'n ôl ac ni fydd S4C yn ymateb iddo. Ni fydd dim yn y paragraff hwn yn cael ei ddehongli fel petai'n cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar allu S4C i ddatgelu unrhyw wybodaeth i unrhyw un wrth gydymffurfio â'i rhwymedigaethau rhyddid gwybodaeth fel y'u hamlinellir yn Rhan 6.6 isod.

Bernir bod unrhyw geisiadau ac unrhyw ymatebion iddynt a ddatgelir i bob Tendrwr yn rhan o'r Gwahoddiad i Dendro hwn.

**Rhan 5 Meini Prawf Gwerthuso a Dyfarnu'r Cytundeb**

**5.1 Profi Cydymffurfiaeth**

Cyn dechrau gwerthuso ymatebion i'r tendr yn ffurfiol, bydd S4C yn bwrw golwg dros ymatebion i'r tendr, yn enwedig y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Gwahoddiad i Dendro. Gellir gwrthod ymatebion i'r tendr nad ydynt yn cydymffurfio. Bydd ymatebion i'r tendr sy'n cydymffurfio'n llawn yn cael eu gwerthuso gan S4C yn unol â'r darpariaethau a nodir yn y Rhan 5 hon.

**5.2 Gwerthuso**

Bydd y cytundeb ar gyfer pob Lot yn cael ei ddyfarnu yn seiliedig ar y tendr sydd fwyaf manteisiol. Er mwyn asesu pa ymateb i'r tendr yw'r un mwyaf manteisiol, bydd panel o gynrychiolwyr S4C yn gwerthuso ac yn sgorio'r holl ymatebion i'r Gwahoddiad i Dendro hwn yn unol â'r meini prawf a'r pwysoliadau canlynol:

**Cwestiynau Cydymffurfio:**

| | **Meini Prawf Gwerthuso** | **Dull Gwerthuso** |
|---|---|---|
| **Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol:** | | |
| Adran 1 | Gwybodaeth sylfaenol am y Tendrwr | Nid yw'n cael ei sgorio, ond mae'n rhaid i'r rhan gael ei chwblhau |
| Adran 2 | Seiliau dros Waharddiad Gorfodol | **Derbyniol** – Wedi'i chwblhau gyda phob ymateb yn "Nac ydy", neu "Ydy" gyda thystiolaeth o gamau adferol derbyniol<br>**Annerbyniol** – Heb ei chwblhau neu unrhyw un neu fwy o'r ymatebion yn "Ydy" heb dystiolaeth o gamau adferol derbyniol. |
| Adran 3 | Seiliau dros Waharddiad yn ôl Disgresiwn | **Derbyniol** – Wedi'i chwblhau gyda phob ymateb yn "Nac ydy", neu "Ydy" gyda thystiolaeth o gamau adferol derbyniol<br>**Annerbyniol** – Heb ei chwblhau neu unrhyw un neu fwy o'r ymatebion yn "Ydy" heb dystiolaeth o gamau adferol derbyniol. |
| Adran 4 - Modiwlau Ychwanegol | Yswiriant | **Derbyniol** – Wedi'i chwblhau gyda phob ymateb yn "Ie"<br>**Annerbyniol** – Heb ei chwblhau neu unrhyw un neu fwy o'r ymatebion yn "Na". |
| | Cydraddoldeb | **Derbyniol** – Wedi'i chwblhau gyda phob ymateb i C1 a C2 yn "Nac oes", neu "Oes" gyda thystiolaeth o gamau adferol derbyniol, a gyda'r ateb i C3 yn "Oes"<br>**Annerbyniol** – Heb ei chwblhau neu ymateb i C1 a/neu C2 yn "Oes" heb |

| | | |
|---|---|---|
| | | dystiolaeth o gamau adferol derbyniol, a/neu'r ateb i C3 yn "Nac oes". |
| | Rheoli Amgylcheddol | **Derbyniol** – Wedi'i chwblhau gyda'r ymateb i C1 yn "Nac ydy", neu "Ydy" gyda thystiolaeth o gamau adferol derbyniol, a gyda'r ymateb i C2 yn "Oes"<br>**Annerbyniol** – Heb ei chwblhau neu ymateb i C1 yn "Ydy" heb dystiolaeth o gamau adferol derbyniol, a/neu gyda'r ymateb i C2 yn "Nac oes". |
| | Iechyd a Diogelwch | **Derbyniol** – Hunanardystio wedi'i gwblhau a'r ymateb i C2 yn "Nac ydy" neu'n "Ydy" gyda thystiolaeth o gamau adferol derbyniol, a'r ymateb i C3 yn "Oes"<br>**Annerbyniol** – Hunanardystio heb ei gwblhau neu ymateb i C2 yn "Ydy" heb dystiolaeth o gamau adferol derbyniol, a/neu'r ymateb i C3 yn "Nac oes". |
| | Diogelu Data | **Derbyniol** – Hunanardystio wedi'i gwblhau a'r ymateb i C2 yn "Nac ydy" neu'n "Ydy" gyda thystiolaeth o gamau adferol derbyniol, a'r ymateb i C3 yn "Oes"<br>**Annerbyniol** – Hunanardystio heb ei gwblhau neu ymateb i C2 yn "Ydy" heb dystiolaeth o gamau adferol derbyniol, a/neu'r ymateb i C3 yn "Nac oes". |
| Adran 5 | Datganiad | Nid yw'n cael ei sgorio, ond mae'n rhaid i'r rhan hon gael ei chwblhau. |

**Cwestiynau Ansoddol:**

**Lot 1 – Gwasanaethau Isdeitlo S4C**

| Meini Prawf Dyfarnu | Cwestiynau Gwerthuso a Sut y bydd S4C yn gwerthuso'r ymateb | Pwysoliad |
|---|---|---|
| **Datganiad Ysgrifenedig:** | | |
| **Profiad y Cwmni a Phersonél Allweddol** | Rhaid i Dendrwyr ddarparu manylion am brofiad y cwmni o ran cyflenwi:<br>• Isdeitlau Cymraeg<br>• Isdeitlau Saesneg<br>• Isdeitlau Byw yn Gymraeg ac yn Saesneg<br>• Darparu a gwirio cywirdeb Ffeiliau Isdeitlau ar gyfer creu fersiynau Capsiynau Agored.<br><br>Dylai Tendrwyr ddisgrifio eu profiad o ddarparu gwasanaethau isdeitlo i ddarlledwyr, llwyfannau ffrydio, neu sefydliadau cyfryngau yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, gan gynnwys profiad o gefnogi'r canlynol:<br>• Rhaglenni byw<br>• Rhaglenni sydd bron yn fyw/fel petaent yn fyw<br>• Cynnwys a recordiwyd ymlaen llaw<br>• Darpariaeth aml-lwyfan<br><br>Dylai'r manylion gynnwys y mathau o gynnwys a gefnogwyd (byw, chwaraeon, newyddion, adloniant, rhaglenni plant, drama, digidol ffeithiol, ac ati), yn ogystal â nifer yr oriau o gynnwys byw a chynnwys a recordiwyd ymlaen llaw a ddarparwyd yn flynyddol.<br><br>Dylai Tendrwyr ddarparu astudiaeth achos a chyfeiriadau sy'n dangos darpariaeth ar raddfa darlledwr. | 12% |
| | Dylai Tendrwyr ddarparu manylion enwau, cymwysterau unigol neu gymwysterau perthnasol i'r diwydiant, galluoedd ieithyddol a phrofiad perthnasol y personél allweddol a fydd yn cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu'r gwasanaethau i S4C, ynghyd â'r rôl y bydd pob un yn ei hysgwyddo wrth ddarparu'r gwasanaethau. | 8% |
| **Cyflenwi Gwasanaeth** | Dylai Tendrwyr ddisgrifio eu dull arfaethedig ar gyfer cyflenwi'r gwasanaeth isdeitlo, gan gynnwys y llif gwaith, prosesau gweithredol, sut y dyrennir yr adnoddau, | 4% |

| | | |
|---|---|---|
| | trefniadau llywodraethu, a sut y bydd ansawdd y gwasanaeth yn cael ei gynnal trwy gydol cyfnod y contract.<br><br>Dylai Tendrwyr esbonio sut y bydd y cynnwys yn cael ei dderbyn a'i brosesu, sut y bydd ei ansawdd yn cael ei wirio, a sut y caiff ei ddychwelyd i'r darlledwr, gan gynnwys manylion pwyntiau trosglwyddo, cyfrifoldebau a rheolaethau allweddol.<br><br>Dylai Tendrwyr ddisgrifio sut y byddant yn rheoli anwadaliadau o ran maint rhaglenni, brigau tymhorol, newidiadau i amserlenni, a cheisiadau ar fyr rybudd wrth gynnal lefelau'r gwasanaeth.<br><br>Dylai Tendrwyr esbonio eu dull o reoli cyfnodau o oedi (gydag isdeitlau Cymraeg a Saesneg), golygu amser real, a chydweithio â gweithredwyr. | |
| | Dylai Tendrwyr ddisgrifio sut maent yn cynnal adolygiadau ansawdd ac amlder adolygiadau o'r fath. Dylid darparu enghreifftiau o fentrau sicrhau ansawdd ar gyfer cleientiaid. | 2% |
| | Dylai Tendrwyr esbonio eu proses ar gyfer ymdrin â chŵynion gwylwyr a chywiro gwallau. | 2% |
| | Disgrifiwch eich dealltwriaeth o rwymedigaethau mynediad darlledwyr a gofynion ansawdd isdeitlau. | 2% |
| **Nodweddion y System Arfaethedig a'r Seilwaith Technegol** | Dylai Tendrwyr ddisgrifio nodweddion eu systemau cyflenwi arfaethedig, gan gynnwys manylion unrhyw effeithlonrwydd neu welliannau i'r llif gwaith o gymharu â systemau traddodiadol. | 7% |
| | Dylai Tendrwyr esbonio'r feddalwedd a'r seilwaith technegol sy'n sail i'w system, gan gynnwys systemau awtomeiddio, a'r fformatau isdeitlo, y trwyddedau a'r system gymorth sydd ar waith ar gyfer y feddalwedd hon. | 2% |

| | | |
|---|---|---|
| | Dylai Tendrwyr ddisgrifio sut y bydd gwasanaethau wrth gefn yn cael eu cyflenwi ar gyfer y system, gan nodi manylion gweithdrefnau creu copi wrth gefn ac adfer. | |
| | Dylai Tendrwyr ddisgrifio lefel yr awtomeiddio neu'r deallusrwydd artiffisial (AI) y maent yn ei ddefnyddio yn eu llif gwaith, a sut a phryd y defnyddir adolygiadau dynol. | 2% |
| **Cadw, Recriwtio a Hyfforddi Staff** | Dylai Tendrwyr ddarparu manylion eu strategaeth recriwtio a hyfforddi staff trwy wneud y canlynol:<br><br>• Disgrifio eu dull o recriwtio personél isdeitlo â'r cymwysterau a'r profiad addas ac o gynnal sefydlogrwydd y gweithlu trwy gydol cyfnod y contract.<br><br>• Disgrifio sut y byddant yn sicrhau bod niferoedd digonol o bersonél hyfforddedig ar gael i fodloni'r galw a ragwelir ac unrhyw alw annisgwyl. | 4% |
| | Dylai Tendrwyr ddisgrifio sut y byddant yn sicrhau bod gan yr isdeitlwyr y sgiliau iaith gofynnol o ran y Gymraeg a'r Saesneg. | 3% |
| | Dylai Tendrwyr esbonio'r mesurau sydd ar waith i gadw personél allweddol ac i leihau unrhyw darfu o ganlyniad i gyflogeion yn gadael; yn ogystal â'u trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth yn achos rolau gweithredol a rheolaethol critigol. | 5% |
| **Parhad Busnes** | Dylai Tendrwyr ddisgrifio sut y byddant yn sicrhau cydnerthedd a Pharhad Busnes ar draws eu darpariaeth yn ystod cyfnod y contract trwy ddarparu copi o'u trefniadau parhad busnes ac adferiad yn dilyn trychineb (BCDR).<br><br>Dylai'r BCDR ddisgrifio:<br><br>• Y trefniadau wrth gefn sydd ar waith yn achos a) methiant meddalwedd, caledwedd neu bŵer; b) absenoldeb a/neu salwch staff; c) digwyddiad mawr. | 5% |

| | | |
|---|---|---|
| | • Y modd y mae'r cynigydd yn sicrhau gwasanaeth di-dor yn ystod y digwyddiadau hyn.<br><br>• Mesurau gwydnwch y gwasanaeth sydd ar waith ar gyfer darlledu byw.<br><br>Dylai Tendrwyr esbonio a ydynt erioed wedi profi methiant mawr o ran gwasanaeth, a sut y cafodd hyn ei reoli.<br><br>Dylai Tendrwyr esbonio pa mor aml y caiff eu trefniadau BCDR eu hadolygu, eu diweddaru a'u cymeradwyo. | |
| **Datblygiad Technoleg yn y dyfodol i ddatblygu darpariaeth y Gwasanaethau Mynediad** | Dylai Tendrwyr ddisgrifio eu strategaeth ar gyfer nodi, gwerthuso, ac integreiddio technolegau newydd i'w llifoedd gwaith isdeitlo o ddydd i ddydd, gan gynnwys esbonio sut y bydd eu dull o ymchwilio i dechnolegau newydd a'u cyflwyno yn cael ei gysoni â hyfforddiant a datblygiad staff er mwyn sicrhau bod gan dimau y sgiliau priodol i'w mabwysiadu mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd. | 6% |
| | Dylai Tendrwyr ddisgrifio pa fesurau diogelwch sydd ar waith i sicrhau ansawdd pan ddefnyddir awtomatiaeth. | 2% |
| | Dylai Tendrwyr amlinellu eu map trywydd ar gyfer arloesi yn ystod y tair blynedd nesaf. | 4% |
| **Y ffi** | Dylai Tendrwyr ddarparu manylion y ffi fesul awr am bob un o bum elfen y gwasanaeth. | 30% |

**Lot 2 – Gwasanaeth Sain Ddisgrifio S4C**

| Meini Prawf Dyfarnu | Cwestiynau Gwerthuso a Sut y bydd S4C yn gwerthuso'r ymateb | Pwysoliad |
|---|---|---|
| **Datganiad Ysgrifenedig:** | | |
| **Profiad y Cwmni a Phersonél Allweddol** | Dylai Tendrwyr ddarparu manylion am brofiad y cwmni o ran darparu gwasanaeth Disgrifiad Clywedol Cymraeg sy'n cynnwys sgriptio a lleisio.<br><br>Dylai Tendrwyr ddisgrifio eu profiad o ddarparu gwasanaeth Disgrifiad Clywedol Cymraeg i ddarlledwyr, llwyfannau ffrydio, a/neu sefydliadau cyfryngau yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, gan gynnwys profiad yn y genres canlynol:<br><br>• Operâu sebon a dramâu<br>• Rhaglenni ffordd o fyw<br>• Rhaglenni plant<br>• Rhaglenni byw<br><br>Dylai'r manylion gynnwys nifer yr oriau o Ddisgrifiad Clywedol a gyflenwir yn flynyddol.<br><br>Dylai Tendrwyr ddisgrifio unrhyw fath arall o gynnwys (chwaraeon, newyddion, adloniant, digidol, ac ati) y maent wedi'i gefnogi, a sut y maent yn mynd ati i greu, sgriptio a lleisio gwasanaeth Disgrifiad Clywedol ar gyfer y genres hyn.<br><br>Dylai Tendrwyr ddarparu astudiaeth achos a chyfeiriadau sy'n dangos darpariaeth ar raddfa darlledwr. | 12% |
| | Dylai Tendrwyr ddarparu manylion enwau, cymwysterau unigol neu gymwysterau perthnasol i'r diwydiant, galluoedd ieithyddol a phrofiad perthnasol y personél allweddol a fydd yn cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu'r gwasanaethau i S4C, ynghyd â'r rôl y bydd pob un yn ei hysgwyddo wrth ddarparu'r gwasanaethau, gan sicrhau bod y cynigydd yn gallu cynnig amrywiaeth o leisiau gwahanol i leisio'r gwasanaeth. | 8% |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflenwi Gwasanaeth** | Dylai Tendrwyr ddisgrifio eu dull arfaethedig ar gyfer cyflenwi'r gwasanaeth Disgrifiad Clywedol, gan gynnwys sut y bydd y cynnwys yn cael ei dderbyn a'i brosesu, sut y bydd ei ansawdd yn cael ei wirio, a sut y caiff ei ddychwelyd i S4C. Dylai Tendrwyr gynnwys manylion pwyntiau trosglwyddo, cyfrifoldebau a rheolaethau allweddol. | 2% |
| | Dylai Tendrwyr esbonio a oes ganddynt y capasiti i weithio o fewn y cyfyngiadau amser perthnasol, a bod ganddynt y systemau rheoli priodol i'w galluogi i gyflawni'r deunyddiau cyflenwi yn unol â'r gofynion.<br><br>Dylai Tendrwyr ddisgrifio sut y byddant yn rheoli anwadaliadau o ran maint rhaglenni, brigau tymhorol, newidiadau i amserlenni, a cheisiadau ar fyr rybudd wrth gynnal lefelau'r gwasanaeth. | 2% |
| | Dylai Tendrwyr esbonio eu dull o sicrhau ansawdd, cywirdeb a phriodoldeb y Gymraeg a ddefnyddir yn y gwasanaeth Disgrifiad Clywedol.<br><br>Dylai Tendrwyr esbonio sut y maent yn cynnal adolygiadau ansawdd; amlder adolygiadau o'r fath; a darparu enghreifftiau o fentrau gwella ansawdd a roddwyd ar waith ar gyfer cleientiaid. | 2% |
| | Dylai Tendrwyr ddisgrifio eu proses ar gyfer ymdrin â chŵynion gwylwyr a chywiro gwallau. | 2% |
| | Disgrifiwch eich dealltwriaeth o rwymedigaethau mynediad darlledwyr a gofynion ansawdd Disgrifiad Clywedol.<br><br>Dylai Tendrwyr ddisgrifio sut y maent yn sicrhau bod y Disgrifiad Clywedol yn bodloni safonau hygyrchedd perthnasol ac arfer gorau'r diwydiant. | 2% |
| **Nodweddion y System Arfaethedig a'r Seilwaith Technegol** | Dylai Tendrwyr ddisgrifio nodweddion eu systemau cyflenwi arfaethedig, gan gynnwys manylion unrhyw effeithlonrwydd neu welliannau i'r llif gwaith o gymharu â systemau traddodiadol, a'r technolegau a'r methodolegau a ddefnyddir ar gyfer Disgrifiad Clywedol. | 7% |

| | | |
|---|---|---|
| | Dylai Tendrwyr ddisgrifio'r system Disgrifiad Clywedol arfaethedig, gan gynnwys ei saernïaeth, ei model gweithredu (cwmwl, hybrid, neu ar y safle), ac elfennau swyddogaethol allweddol.<br><br>Dylai Tendrwyr ddisgrifio'r nodweddion sydd ar gael ar gyfer sgriptio, golygu, adolygu, a chymeradwyo Disgrifiad Clywedol, gan gynnwys cymorth ar gyfer amseru, segmentu, gwirio sillafu, a chanllawiau arddull. | |
| | Dylai Tendrwyr esbonio'r feddalwedd a'r seilwaith technegol sy'n sail i'w systemau, gan gwmpasu'r llwyfannau, y feddalwedd, a'r offer cynhyrchu Disgrifiad Clywedol a ddefnyddir yn y gwasanaeth.<br><br>Dylai Tendrwyr ddisgrifio sut y bydd gwasanaethau wrth gefn yn cael eu cyflenwi ar gyfer y system, gan nodi manylion gweithdrefnau creu copi wrth gefn ac adfer. | 2% |
| | Dylai Tendrwyr ddisgrifio lefel yr awtomeiddio neu'r deallusrwydd artiffisial (AI) y maent yn ei ddefnyddio yn eu llif gwaith, a sut a phryd y defnyddir adolygiadau dynol. | 2% |
| **Cadw, Recriwtio a Hyfforddi Staff** | Dylai Tendrwyr ddarparu manylion eu strategaeth recriwtio a hyfforddi staff trwy wneud y canlynol:<br><br>• Disgrifio eu dull o recriwtio personél Disgrifiad Clywedol â'r cymwysterau a'r profiad addas, ac o gynnal sefydlogrwydd y gweithlu trwy gydol cyfnod y contract, gan gynnwys y capasiti i gontractio amrywiaeth o unigolion i leisio'r gwasanaeth er mwyn cynnig ystod o leisiau.<br><br>• Disgrifio sut y maent yn sicrhau bod nifer digonol o bersonél hyfforddedig ar gael i fodloni'r galw a ragwelir ac unrhyw alw annisgwyl. | 4% |
| | Dylai Tendrwyr ddisgrifio sut y maent yn sicrhau bod eu Disgrifwyr Clywedol Cymraeg yn meddu ar sgiliau iaith o safon ddigon uchel, a pha asesiad neu brosesau sicrhau ansawdd y maent yn eu defnyddio i ddilysu eu medrusrwydd ieithyddol. | 3% |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | Dylai Tendrwyr esbonio'r mesurau sydd ar waith i gadw personél allweddol ac i leihau unrhyw darfu o ganlyniad i gyflogeion yn gadael; yn ogystal â'u trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth yn achos rolau gweithredol a rheolaethol critigol. | 5% |
| **Parhad Busnes** | Dylai Tendrwyr ddisgrifio sut y byddant yn sicrhau cydnerthedd a Pharhad Busnes ar draws eu darpariaeth yn ystod cyfnod y contract trwy ddarparu copi o'u trefniadau parhad busnes ac adferiad yn dilyn trychineb (BCDR).<br><br>Dylai'r BCDR ddisgrifio:<br><br>• Y trefniadau wrth gefn sydd ar waith yn achos a) methiant meddalwedd, caledwedd neu bŵer; b) absenoldeb a/neu salwch staff; c) digwyddiad mawr.<br><br>• Y modd y mae'r cynigydd yn sicrhau gwasanaeth di-dor yn ystod y digwyddiadau hyn.<br><br>• Mesurau gwydnwch y gwasanaeth sydd ar waith ar gyfer darlledu byw.<br><br>Dylai Tendrwyr esbonio a ydynt erioed wedi profi methiant mawr o ran gwasanaeth, a sut y cafodd hyn ei reoli.<br><br>Dylai Tendrwyr esbonio pa mor aml y caiff eu trefniadau BCDR eu hadolygu, eu diweddaru a'u cymeradwyo. | 5% |
| **Datblygiad Technoleg yn y dyfodol i ddatblygu darpariaeth y Gwasanaethau Mynediad** | Dylai Tendrwyr ddisgrifio eu strategaeth ar gyfer nodi, gwerthuso, ac integreiddio technolegau newydd i'w llifoedd gwaith Disgrifiad Clywedol o ddydd i ddydd, gan gynnwys eu dull o ymchwilio i dechnolegau newydd i'w cysoni â hyfforddiant a datblygiad staff, ac o gyflwyno'r technolegau hynny, er mwyn sicrhau bod gan dimau y sgiliau priodol i'w mabwysiadu mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd. | 6% |
| | Dylai Tendrwyr ddarparu manylion eu dull arfaethedig o gyflenwi Disgrifiad Clywedol byw trwy gydol cyfnod y | 2% |

| | | |
|---|---|---|
| | contract, gan gynnwys sut y byddant yn mynd ati i gefnogi'r defnydd o Ddisgrifiad Clywedol a'i dwf. | |
| | Dylai Tendrwyr amlinellu eu map trywydd ar gyfer arloesi yn ystod y tair blynedd nesaf. | 4% |
| **Y ffi** | Dylai Tendrwyr ddarparu manylion y ffi fesul awr am y gwasanaeth. | 30% |

**Lot 3 – Gwasanaethau Arwyddo ar y Sgrin (BSL) S4C**

| Meini Prawf Dyfarnu | Cwestiynau Gwerthuso a Sut y bydd S4C yn gwerthuso'r ymateb | Pwysoliad |
|---|---|---|
| **Datganiad Ysgrifenedig:** | | |
| **Profiad y Cwmni a Phersonél Allweddol** | Rhaid i Dendrwyr ddarparu manylion am brofiad y cwmni o ran cyflenwi gwasanaeth Arwyddo ar y Sgrin ar gyfer cynnwys a ddarlledir a chynnwys ar alwad.<br><br>Dylai Tendrwyr ddisgrifio eu profiad o ddarparu gwasanaethau Arwyddo ar y Sgrin i ddarlledwyr, llwyfannau ffrydio, neu sefydliadau cyfryngau yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, gan gynnwys profiad yn y genres canlynol:<br><br>• Rhaglenni ffordd o fyw<br>• Rhaglenni ffeithiol/materion cyfoes<br>• Rhaglenni plant<br>• Rhaglenni byw<br><br>Dylai Tendrwyr esbonio eu dull o greu a sgriptio gwasanaeth Arwyddo ar y Sgrin ar gyfer y genres hyn, a sut y mae eu dull yn amrywio, yn dibynnu ar y genre.<br><br>Dylai Tendrwyr esbonio a ydynt wedi cefnogi unrhyw fathau eraill o gynnwys (chwaraeon, drama, newyddion, adloniant, digidol, ac ati), ac esbonio sawl awr o arwyddo ar y Sgrin y maent yn ei ddarparu'n flynyddol.<br><br>Dylai Tendrwyr ddarparu astudiaeth achos a chyfeiriadau sy'n dangos darpariaeth ar raddfa darlledwr. | 12% |
| | Dylai Tendrwyr ddarparu manylion enwau, cymwysterau unigol neu gymwysterau perthnasol i'r diwydiant, galluoedd ieithyddol a phrofiad perthnasol y personél allweddol a fydd yn cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu'r gwasanaethau i S4C, ynghyd â'r rôl y bydd pob un yn ei hysgwyddo wrth ddarparu'r gwasanaethau. | 8% |
| **Cyflenwi Gwasanaeth** | Dylai Tendrwyr ddisgrifio eu dull arfaethedig ar gyfer cyflenwi'r gwasanaeth Arwyddo ar y Sgrin, gan gynnwys y llif gwaith, prosesau gweithredol, sut y dyrennir yr | 4% |

| | | |
|---|---|---|
| | adnoddau, trefniadau llywodraethu, a sut y bydd ansawdd y gwasanaeth yn cael ei gynnal trwy gydol cyfnod y contract.<br><br>Dylai Tendrwyr esbonio sut y bydd y cynnwys yn cael ei dderbyn a'i brosesu, sut y bydd ei ansawdd yn cael ei wirio, a sut y caiff ei ddychwelyd i S4C, gan gynnwys manylion pwyntiau trosglwyddo, cyfrifoldebau a rheolaethau allweddol.<br><br>Dylai Tendrwyr ddisgrifio sut y byddant yn rheoli anwadaliadau o ran maint rhaglenni, brigau tymhorol, newidiadau i amserlenni, a cheisiadau ar fyr rybudd wrth gynnal lefelau'r gwasanaeth. | |
| | Dylai Tendrwyr amlinellu eu dull o gyflenwi Iaith Arwyddion Prydain sy'n adlewyrchu cyd-destun ieithyddol a diwylliannol Cymru, gan gynnwys sut i gyfrif am amrywiadau rhanbarthol, disgwyliadau cynulleidfaoedd yng Nghymru, a chysondeb yr ansawdd ar draws y cynnwys. | 2% |
| | Dylai Tendrwyr esbonio sut y maent yn cynnal adolygiadau ansawdd ac amlder adolygiadau o'r fath, gan gynnwys sut y maent yn ymdrin â chŵynion gwylwyr. Dylid darparu enghreifftiau o fentrau sicrhau ansawdd ar gyfer cleientiaid. | 2% |
| | Disgrifiwch eich dealltwriaeth o rwymedigaethau mynediad darlledwyr a gofynion ansawdd Arwyddo ar y Sgrin.<br><br>Sut ydych chi'n sicrhau bod Arwyddo ar y Sgrin yn bodloni safonau hygyrchedd perthnasol ac arfer gorau'r diwydiant? | 2% |
| **Nodweddion y System Arfaethedig a'r Seilwaith Technegol** | Dylai Tendrwyr ddisgrifio nodweddion eu system arfaethedig, gan gynnwys manylion unrhyw effeithlonrwydd neu welliannau i'r llif gwaith o gymharu â systemau traddodiadol, a pha dechnolegau a methodolegau y maent yn eu defnyddio ar gyfer Arwyddo ar y Sgrin. | 7% |

| | | |
|---|---|---|
| | Dylai Tendrwyr esbonio eu dull o baratoi sgriptiau BSL a'u cyflenwi ar y sgrin, gan gynnwys prosesau ar gyfer cyfieithu, addasu, a pherfformiad ar y sgrin. | |
| | Dylai Tendrwyr esbonio'r feddalwedd a'r seilwaith technegol sy'n sail i'w systemau, gan gwmpasu'r llwyfannau, y feddalwedd, a'r offer cynhyrchu Arwyddo ar y Sgrin a ddefnyddir yn y gwasanaeth.<br><br>Dylai Tendrwyr ddisgrifio sut y bydd gwasanaethau wrth gefn yn cael eu cyflenwi ar gyfer y system, gan nodi manylion gweithdrefnau creu copi wrth gefn ac adfer. | 2% |
| | Dylai Tendrwyr ddisgrifio lefel yr awtomeiddio neu'r deallusrwydd artiffisial (AI) y maent yn ei ddefnyddio yn eu llif gwaith, a sut a phryd y defnyddir adolygiadau dynol. | 2% |
| **Cadw, Recriwtio a Hyfforddi Staff** | Dylai Tendrwyr ddarparu manylion eu strategaeth recriwtio a hyfforddi staff trwy wneud y canlynol:<br><br>• Disgrifio eu dull o recriwtio personél arwyddo â'r cymwysterau a'r profiad addas, ac o gynnal sefydlogrwydd y gweithlu trwy gydol cyfnod y contract.<br><br>• Disgrifio sut y byddant yn sicrhau bod niferoedd digonol o bersonél hyfforddedig ar gael i fodloni'r galw a ragwelir ac unrhyw alw annisgwyl. | 4% |
| | Dylai Tendrwyr esbonio eu dull o roi hyfforddiant i staff ar amrywiadau rhanbarthol o fewn BSL, gan gynnwys:<br>• Y modd y caiff amrywiadau BSL Cymraeg eu cynnwys mewn hyfforddiant;<br>• Y defnydd o arwyddwyr brodorol neu rai sy'n brofiadol yn rhanbarthol; a<br>• Datblygiad proffesiynol parhaus a threfniadau monitro ansawdd | 3% |
| | Dylai Tendrwyr esbonio'r mesurau sydd ar waith i gadw personél allweddol ac i leihau unrhyw darfu o ganlyniad i gyflogeion yn gadael; yn ogystal â'u trefniadau cynllunio | 5% |

| | | |
|---|---|---|
| | ar gyfer olyniaeth yn achos rolau gweithredol a rheolaethol critigol. | |
| **Parhad Busnes** | Dylai Tendrwyr ddisgrifio sut y byddant yn sicrhau cydnerthedd a Pharhad Busnes ar draws eu darpariaeth yn ystod cyfnod y contract trwy ddarparu copi o'u trefniadau parhad busnes ac adferiad yn dilyn trychineb (BCDR).<br><br>Dylai'r BCDR ddisgrifio:<br><br>• Y trefniadau wrth gefn sydd ar waith yn achos a) methiant meddalwedd, caledwedd neu bŵer; b) absenoldeb a/neu salwch staff; c) digwyddiad mawr.<br><br>• Y modd y mae'r cynigydd yn sicrhau gwasanaeth di-dor yn ystod y digwyddiadau hyn.<br><br>• Mesurau gwydnwch y gwasanaeth sydd ar waith ar gyfer darlledu byw.<br><br>Dylai Tendrwyr esbonio a ydynt erioed wedi profi methiant mawr o ran gwasanaeth, a sut y cafodd hyn ei reoli.<br><br>Dylai Tendrwyr esbonio pa mor aml y caiff eu trefniadau BCDR eu hadolygu, eu diweddaru a'u cymeradwyo. | 5% |
| **Datblygiad Technoleg yn y dyfodol i ddatblygu darpariaeth y Gwasanaethau Mynediad** | Dylai Tendrwyr ddisgrifio eu strategaeth ar gyfer nodi, gwerthuso, ac integreiddio technolegau newydd i'w llifoedd gwaith Arwyddo ar y Sgrin o ddydd i ddydd, gan gynnwys eu dull o ymchwilio i dechnolegau newydd i'w cysoni â hyfforddiant a datblygiad staff, ac o gyflwyno'r technolegau hynny, er mwyn sicrhau bod gan dimau y sgiliau priodol i'w mabwysiadu mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd.<br><br>Dylai Tendrwyr ddarparu manylion eu dull arfaethedig o fynd ati i gyflenwi gwasanaeth Arwyddo ar y Sgrin byw ar ryw adeg yn ystod cyfnod y contract. | 6% |
| | Dylai Tendrwyr ddisgrifio pa fesurau diogelwch sydd ar waith i sicrhau ansawdd os a phan ddefnyddir awtomatiaeth. | 2% |

| | | |
|---|---|---|
| | Dylai Tendrwyr amlinellu eu map trywydd ar gyfer arloesi yn ystod y tair blynedd nesaf. | 4% |
| **Y Ffi** | Dylai Tendrwyr ddarparu manylion y ffi fesul awr am y gwasanaeth. | 30% |

Yn Atodiad 2 ceir matrics sy'n nodi sut y bydd y wybodaeth sy'n ofynnol yn rhan 3.1 uchod yn cael ei gwerthuso yn unol â'r meini prawf hyn.

Yn dilyn cyflwyno'r tendrau ysgrifenedig yn unol â'r Gwahoddiad i Dendro hwn, bydd pob aelod o'r panel yn cynnal gwerthusiad cychwynnol o'r ymatebion tendro mewn perthynas â phob maen prawf (ac eithrio'r ffi) drwy gymhwyso'r matrics gwerthuso a nodir yn Atodiad 2. Bydd aelodau'r panel wedyn yn dod ynghyd i gymedroli a chyrraedd consensws, ac i gytuno ar y sgôr terfynol yn erbyn pob maen prawf. Gall S4C, ond nid yw o dan rwymedigaeth i wneud hynny, benodi cymedrolwr annibynnol i gefnogi'r gwerthuswyr i gyrraedd sgôr consensws.

**Gwerthuso Ffi**

Bydd S4C yn gwerthuso'r ffi a ddarperir gan bob Tendrwr gan ddefnyddio'r fformiwla ganlynol: y ffi isaf a ddarperir fel rhan o'r tendr wedi'i rannu â ffi a gyflwynwyd gan y Tendrwr. Gall S4C eithrio ymatebion sydd wedi darparu ffioedd anarferol o isel. Bydd y ffi yn cael ei phwysoli ar **30%** fel y'i disgrifir uchod.

### 5.3 Anghymhwyso Ymatebion i'r Tendr/Tendrwyr

Ceidw S4C yr hawl i anghymhwyso ymateb i'r tendr a/neu Dendrwr o'r broses dendro hon ar unrhyw adeg os yw'r canlynol yn gymwys:

(a) nid yw ymateb i'r Tendr yn cydymffurfio â gofynion y Gwahoddiad i Dendro hwn mewn unrhyw ffordd;

(b) mae unrhyw wybodaeth a roddwyd i S4C gan y Tendrwr perthnasol (neu, yn achos consortiwm, unrhyw un o'i aelodau) yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd neu nid yw'n gywir mwyach;

(c) mae'r Tendrwr wedi cydgynllwynio â rhywun arall (ac eithrio, pan fo'r Tendrwr yn gonsortiwm, gydgynllwynio rhwng aelodau'r consortiwm mewn perthynas ag ymateb y consortiwm i'r tendr) mewn cysylltiad â'i ymateb i'r tendr neu ymateb unrhyw Dendrwr arall i'r tendr;

(d) mae ffioedd y Tendrwr yn ymddangos yn anarferol o isel ac, wedi i'r Tendrwr gael ei ofyn i egluro'r tendr (neu'r rhannau y mae S4C yn ystyried eu bod yn anarferol o isel), nid yw'r ymateb yn rhoi esboniad boddhaol dros lefel isel y ffioedd.

Ni fydd anghymhwyso unrhyw ymateb i'r tendr neu unrhyw Dendrwr yn effeithio ar hawliau na rhwymedïau eraill S4C.

### 5.4 Dyfarnu'r Cytundeb

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rhan 6.1 isod ac ar ôl cwblhau gwerthuso'r ymatebion i'r tendr, bydd S4C yn hysbysu'r Tendrwyr o ganlyniadau'r gwerthusiad drwy e-bost.

Os bydd y Tendrwr buddugol yn gwrthod derbyn y cytundeb, cynigir y cytundeb i'r Tendrwr sydd yn y safle nesaf yn y drefn, hyd nes y caiff ei dderbyn.

Bydd yn ofynnol i'r Tendrwr y bu ei ymateb i'r Tendr yn llwyddiannus ymrwymo i gytundeb ag S4C ar ffurf cytundeb drafft. Ni fydd unrhyw gytundeb yn cael ei ffurfio oni fydd S4C yn llofnodi'r cytundeb a nes i hynny ddigwydd. Ni fydd derbyn tendr ar lafar neu'n ysgrifenedig na hysbysu'r Tendrwr ei fod wedi llwyddo yn gyfystyr â chytundeb.

## Rhan 6 Nodiadau Cyfreithiol

### 6.1 Dim Rhwymedigaeth i Gynnig y Cytundeb

Ni fydd dim yn y Gwahoddiad i Dendro hwn nac unrhyw gyfathrebu rhwng S4C a'r Tendrwr ynghylch y broses dendro neu'r ymateb i'r tendr yn gyfystyr â chytundeb i ddarparu unrhyw wasanaeth a gwmpesir gan y broses dendro hon na gwarant na chynrychioliad y gellir dyfarnu neu y caiff unrhyw gytundeb ei ddyfarnu.

Ceidw S4C yr hawl i dynnu'n ôl o'r broses dendro hon a/neu roi'r gorau iddi a/neu ei gohirio ar unrhyw adeg, i beidio â dyfarnu unrhyw gytundeb o ganlyniad i'r broses dendro hon, i ategu, diwygio a/neu egluro telerau ac amodau'r Gwahoddiad i Dendro hwn a/neu i ofyn i Dendrwyr egluro eu hymatebion i'r Tendr a/neu roi gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â hwy.

### 6.2 Gwrthdaro Buddiannau

Mae'n ofynnol i Dendrwyr roi manylion os rhagwelir y gallai fod gwrthdaro buddiannau rhwng unigolion sy'n ymwneud â'r cais a staff S4C. Gwneir hyn er mwyn galluogi S4C i sicrhau ei bod yn penodi staff ar gyfer y broses dendro nad oes ganddynt unrhyw berthynas bersonol ag unrhyw Dendrwr nac unrhyw aelod perthnasol o gonsortiwm.

### 6.3 Cytundeb Drafft

Nodir y cytundeb drafft ar gyfer darparu Gwasanaethau Mynediad yn Atodiad 1.

Mae'n rhaid i unrhyw sylwadau ar y cytundeb drafft gael eu cynnwys yn eich cais fel y'i nodir yn Rhan 3.1. Fel arall, drwy gyflwyno'ch tendr bernir eich bod wedi derbyn telerau ac amodau'r cytundeb drafft.

Nid yw nodi sylwadau ar y cytundeb yn eich tendr yn golygu bod S4C yn cytuno arnynt. Ceidw S4C yr hawl i ddiwygio'r cytundeb drafft ar ôl ei gyhoeddi unwaith bod manylion y cais llwyddiannus yn hysbys er mwyn cydymffurfio â'r telerau penodol y cytunwyd arnynt â'r ymgeisydd llwyddiannus. Os na fydd y cytundeb yn cael ei lunio'n foddhaol ar ôl i'r tendr gael ei ddyfarnu, ceidw S4C yr hawl i ddyfarnu'r tendr i ymgeisydd arall neu i aildendro'r cytundeb.

### 6.4 Codau Ymarfer a Chanllawiau

Bydd yn ofynnol i Tendrwr llwyddiannus gydymffurfio â'r codau ymarfer, y ddeddfwriaeth a'r canllawiau canlynol (ymhlith eraill):

- Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch
- Gofynion Technegol S4C
- Polisiau Gwarchod Data a Preifatrwydd S4C
- Datganiad o Ymrwymiad i Amrywiaeth S4C
- Cod Darlledu Ofcom
- Canllawiau Iaith Gymraeg S4C
- Datganiad Cyflenwyr: Aflonyddu Rhywiol
- Canllawiau ar y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI)
- Canllawiau ynglŷn â sut y dylid cyflwyno isdeitlau a gwasanaethau mynediad eraill i S4C

Dylai pob Tendrwr gynnwys cost cydymffurfio â'r uchod (gan gynnwys cost cyngor priodol) yn y cais. Mae llawer o'r canllawiau hyn ar gael ar Wefan Cynhyrchu S4C sydd ar gael yn http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/1154/canllawiau/

### 6.5 Rhyddid Gwybodaeth

Mae S4C yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os bydd unrhyw Dendrwr o'r farn bod unrhyw wybodaeth a roddwyd ganddo i S4C mewn perthynas â'r gwahoddiad hwn yn fasnachol sensitif neu'n gyfrinachol, dylid tynnu sylw at hyn yn benodol a nodi'r rhesymau pam ei bod yn sensitif yn llawn yn yr ymateb i'r tendr. Fodd bynnag, noder nad yw nodi bod gwybodaeth yn gyfrinachol neu'n fasnachol sensitif yn gwarantu na fydd wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu. Ceidw S4C yr hawl i arddel ei disgresiwn wrth benderfynu a yw gwybodaeth benodol wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu ai peidio.

### 6.6 Diogelu Data

Trwy gyflwyno ymateb i'r tendr hwn, mae Tendrwyr yn cadarnhau eu bod wedi rhoi gwybod i bob unigolyn a nodir yng nghyflwyniad y tendr y byddant yn rhannu eu data personol fel hyn. Mae Tendrwyr yn cydnabod y bydd S4C yn prosesu'r holl ddata personol a ddarperir fel rhan o ymateb y tendr yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol (gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018). Mae Hysbysiad Preifatrwydd S4C ar gael yn www.s4c.cymru ac mae Tendrwyr yn cadarnhau trwy hyn y byddant yn hysbysu pob unigolyn y mae eu data personol yn cael ei ddarparu i S4C am y cymal 6.6 hwn. Bydd S4C yn prosesu unrhyw ddata personol a ddarperir yn ymatebion y tendr ar y sail ei bod o fudd cyfreithlon i'r Tendrwr ac S4C i brosesu'r holl ddata personol a ddarperir fel rhan o ymateb y tendr at ddiben gwerthuso ymateb y tendr.

### 6.7 Cyfrinachedd a Chyhoeddusrwydd

Trwy gyflwyno ymateb i'r tendr hwn, mae Tendrwyr yn cytuno i gadw'n gyfrinachol unrhyw wybodaeth a ddatgelir neu a ddarperir fel arall gan S4C iddynt mewn unrhyw gyfrwng ag y bo yn ystod y broses dendro hon neu mewn cysylltiad â hi. Ni chaniateir i Dendrwyr ddefnyddio gwybodaeth o'r fath at unrhyw ddiben ac eithrio paratoi'r ymateb i'r tendr ac ni chaniateir iddynt ddatgelu gwybodaeth o'r fath i unrhyw un ac eithrio'n gyfrinachol ac ar sail angen gwybod i'r rhai hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â pharatoi'r ymateb i'r tendr. Ni fydd rhwymedigaethau o'r fath ynglŷn â chyfrinachedd yn gymwys i ddogfennau sydd eisoes yn gyhoeddus ar adeg ei datgelu neu ei darparu iddynt gan S4C.

Trwy gyflwyno ymateb i'r tendr hwn mae Tendrwyr yn cytuno i beidio â rhoi cyhoeddusrwydd o unrhyw fath (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i hysbysiadau drwy safleoedd rhwydweithio cymdeithasol megis Facebook neu X neu fel arall) ac yn cytuno i sicrhau na fydd eu cyflogwyr yn gwneud hynny, ynglŷn â phwnc y tendr hwn neu unrhyw benderfyniad gan S4C mewn perthynas ag unrhyw elfen o'r tendr hwn oni bai bod S4C wedi rhoi caniatâd ysgrifnedig ymlaen llaw i gyfathrebiad o'r fath.

### 6.8 Ymwadiad

Nid yw S4C yn rhoi unrhyw warant na chynrychioliad ynglŷn â chyflawnrwydd neu gywirdeb unrhyw wybodaeth a geir yn y Gwahoddiad i Dendro hwn a byddwch yn dibynnu ar unrhyw wybodaeth o'r fath ar eich menter eich hun.

## 6.9 Goblygiadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ("TUPE")

Dylid nodi bod y Gwasanaethau Mynediad yn cael eu darparu i S4C ar hyn o bryd gan dri darparwr o dan gytundeb ag S4C. Os caiff gweithgarwch busnes ei aildendro, gall trosglwyddiad o'r fath fod yn gyfystyr â "throsglwyddo ymgymeriad" neu "newid darpariaeth gwasanaeth" at ddibenion Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ("TUPE"). Yn gyffredinol, mae TUPE yn darparu bod y sawl y bu ei dendr/eu tendr yn llwyddiannus yn ymgymryd ag unrhyw rwymedigaethau cyflogaeth a''r cyfrifoldeb am gytundebau cyflogaeth cyflogeion y darparwyr presennol sydd wedi'u haseinio'n bennaf i gytundeb S4C pan fo troslwyddo ymgymeriad a/neu "newid i ddarpariaeth gwasanaeth". Mae'n rhaid i'r darparwr llwyddiannus gynnig y cyflogeion hynny sy'n trosglwyddo yr un telerau ac amodau gwasanaeth a chyflogaeth barhaus â'r darparwr newydd. Nid yw S4C yn disgwyl y bydd unrhyw rai o gyflogeion S4C ei hun yn destun unrhyw drosglwyddiad TUPE. Bydd cymhwyso TUPE bob amser yn fater cyfreithiol a bydd angen i'r Tendrwyr ystyried a chael eu cyngor eu hunain ynghylch a all TUPE gael ei gymhwyso. Gan nad yw S4C yn barti mewn unrhyw drosglwyddiad TUPE, caiff y mater hwn ei ddatrys rhwng y cytundebwyr y mae eu cyfnod yn dod i ben a'r ymgeisydd/ymgeiswyr llwyddiannus.

Mae S4C ar ddeall gan y cytundebwyr presennol ei bod yn bosib y gall unrhyw drosglwyddiad TUPE effeithio ar o gwmpas 21 o gyflogeion (19 mewn perthynas a Gwasanaeth Isdeitlo S4C a 2 mewn perthynas a Gwasanaeth Sain Ddisgrifiad S4C). Bydd gwybodaeth fanylach ynglŷn â TUPE mewn perthynas â Lotiau penodol (i'r graddau y mae ar gael i S4C) ar gael ar gais i Dendrwyr ar ôl llofnodi Cytundeb Peidio â Datgelu.

Bydd angen i bob Tendrwr ystyried goblygiadau posibl TUPE fel rhan o'r ffi a gynigir.

## 6.10 Costau'r Tendr

Bydd pob Tendrwr yn gyfrifol am y costau a'r treuliau y mae'n mynd iddynt mewn cysylltiad â'r broses dendro hon. Ni fydd S4C yn cyfrannu at unrhyw gostau na threuliau o'r fath o dan unrhyw amgylchiadau.

## 6.11 Diwygiadau i Ddogfennau Tendr

Ceidw S4C yr hawl i newid y tendr ar unrhyw bryd. Er mwyn caniatáu amser i ystyried diwygiad o'r fath caiff S4C, yn ôl ei disgresiwn, ymestyn y dyddiadau a nodir yn Rhan 4.1 uchod.

## 6.12 Hawlfraint

S4C sy'n berchen ar yr hawlfraint yn y Gwahoddiad i Dendro ac unrhyw ddeunyddiau eraill a gyhoeddir neu a ddarperir gan S4C. Ni chaniateir i Dendrwyr gopïo, atgynhyrchu, defnyddio na dosbarthu copïau o'r Gwahoddiad i Dendro na deunyddiau o'r fath (nac unrhyw ran ohonynt) oni bai fod hynny'n gwbl ofynnol i baratoi a chyflwyno ei ymateb i'r Tendr ac i'r graddau y mae hynny'n gwbl ofynnol.

## 6.13 Dim Cydgynllwynio

Drwy gyflwyno ymateb i'r Gwahoddiad i Dendro hwn, mae pob Tendrwr yn ardystio'r canlynol:

1. mae'r ymateb i'r tendr yn ddiffuant a bwriedir iddo fod yn gystadleuol;

2. nid yw'r Tendrwr wedi pennu nac wedi addasu'r ymateb drwy neu o dan neu yn unol ag unrhyw gytundeb neu drefniant ag unrhyw un arall (ac eithrio, yn achos consortiwm, aelodau eraill y consortiwm), nac wedi gofyn i unrhyw un arall sy'n tendro wneud hynny; a

3. nid yw'r Tendrwr wedi hysbysu unrhyw un arall ac eithrio S4C o swm neu amcangyfrif o gyllideb neu bris yr ymateb i'r tendr, oni bai bod y datgeliad, yn gyfrinachol, yn angenrheidiol er mwyn cael premiwm yswirant neu ddyfynbrisiau eraill sydd eu hangen i baratoi'r tendr.

**6.14 Ymddygiad Amhriodol**

Os bydd Tendrwr neu gynghorydd a benodir ganddo yn ceisio dylanwadu'n amhriodol ar y broses dendro hon neu'r broses o ddyfarnu'r cytundeb mewn unrhyw ffordd, caiff S4C anghymwyso ymateb y Tendrwr hwnnw i'r tendr yn ôl disgresiwn llwyr S4C. Gall unrhyw ymgais gan Dendrwr neu gynghorydd a benodwyd ganddo i ganfasio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn perthynas â'r broses gaffael hon neu unrhyw ymgais i gael gwybodaeth gan unrhyw un o gyflogeion neu asiantau S4C ynglŷn â sefydliad arall sy'n tendro arwain at anghymhwyso yn ôl disgresiwn S4C yn unig.

**6.15 Y Gyfraith Lywodraethol**

Rheolir y Gwahoddiad i Dendro hwn gan gyfreithiau Cymru a Lloegr ac mae pob Tendrwr yn cytuno, drwy gyflwyno'r ymateb i'r tendr, i ufuddhau i awdurdodaeth ecsgliwsif llysoedd Cymru a Lloegr.

**ATODIAD 1**

**CYTUNDEB DRAFFT**

**YN DDAROSTYNGEDIG I GYTUNDEB**

(Gweler y ddogfen ynghlwm)

**ATODIAD 2**

**MATRICS GWERTHUSO TENDRAU**

| **Sgôr** | **Categori** | **Proffeil** |
|---|---|---|
| 0 | Dim Ymateb / Gwan iawn | Methwyd â mynd i'r afael â gofynion S4C neu does dim tystiolaeth wedi ei ddarparu i fynd i'r afael â gofynion S4C. |
| 1 | Gwan | Cynnig gwan o ran mynd i'r afael â gofynion S4C neu gyda thystiolaeth gwan i gefnogi y byddai'r cynnig yn cael ei gyflawni, sydd â bylchau mawr, nad yw'n argyhoeddi mewn sawl ffordd neu sydd â diffyg credadwyedd difrifol. |
| 2 | Llai na Boddhaol | Cynnig sy'n llai na boddhaol o ran mynd i'r afael â gofynion S4C neu sydd â thystiolaeth cefnogol llai na boddhaol, sydd â bylchau cymedrol neu sy'n amherthnasol neu'n methu ag argyhoeddi. |
| 3 | Boddhaol | Cynnig boddhaol o ran mynd i'r afael â gofynion S4C neu sydd â thystiolaeth boddhaol y byddai'r cynnig yn cael ei gyflawni ond sydd â mân fylchau neu sy'n methu ag argyhoeddi i raddau neu sydd â diffyg credadwyedd. |
| 4 | Da | Cynnig da i fynd i'r afael â gofynion S4C sydd â thystiolaeth da i gefnogi y byddai'r cynigion yn cael eu cyflawni sy'n ddigonol (mewn termau ansoddol), yn argyhoeddi ac yn gredadwy. |
| 5 | Arbennig | Cynnig arbennig sy'n mynd i'r afael â ac yna'n rhagori ar ofynion S4C mewn ffordd y mae S4C yn ystyried sy'n cynnig (yng nghyd-destun nodau ac amcanion S4C a nodir yn adran 2) gwasanaethau ychwanegol sy'n gost-effeithiol ac y gellir eu cyflawni ac sydd â thystiolaeth arbennig i gefnogi y byddai'r cynigion yn cael eu cyflawni, sy'n gyson, cynhwysfawr a chymhellol. |

**ATODIAD 3**

**DISGRIFIADAU PELLACH O'R GWASANAETHAU**

**Lot 1 – Gwasanaeth Isdeitlo S4C**

**Gwybodaeth Gefndirol**

Yn unol â gofynion statudol Deddf Cyfathrebu 2003 a Chod Ofcom ar Wasanaethau Mynediad i Deledu (https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/code-on-television-access-services/cod-ofcom-ar-wasanaethau-mynediad-ar-gyfer-teledu.pdf?v=356731) rhaid i S4C ddarparu gwasanaeth isdeitlo, fel rhan o'r gwasanaethau atodol ar S4C.

Mae S4C yn darparu isdeitlo Cymraeg a Saesneg ar gyfer rhaglenni dethol sy'n cael eu darlledu ar draws platfformau llinol a digidol. Bydd yr isdeitlau hyn ar gael ar bob platfform S4C gan gynnwys clipiau cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau digidol. Bydd rhai rhaglenni angen BIST (isdeitlau wedi'u llosgi). Yn 2025, darparodd S4C isdeitlau Saesneg ar bron i 85% o'i chynnwys llinol ac isdeitlau Cymraeg ar 70% o'i chynnwys llinol. Mae'r ffigurau ar gyfer cynnwys digidol yn debyg.

Bydd y Tendrwr llwyddiannus yn cynnig gwasanaeth cynhwysfawr ar gyfer cyflenwi pob un o'r canlynol:

- Isdeitlau Saesneg
- Isdeitlau Saesneg ar gyfer rhaglenni byw
- Isdeitlau Cymraeg
- Isdeitlau Cymraeg ar gyfer rhaglenni byw
- Isdeitlau storio ar fideo (BIST)

Mae'r gwasanaeth isdeitlo Saesneg ar gyfer gwylwyr di-Gymraeg yn bennaf; dysgwyr a gwylwyr byddar a thrwm eu clyw.

Mae'r gwasanaeth isdeitlo Cymraeg ar gyfer dysgwyr ar lefel uwch yn ogystal â gwylwyr byddar a thrwm eu clyw Cymraeg eu hiaith.

**Cynnwys i'w Hisdeitlo**

Mae'r Lot hwn yn cwmpasu darpariaeth isdeitlo Cymraeg a Saesneg ar gyfer cymysgedd o raglenni wedi'u recordio ymlaen llaw a rhaglenni byw.

Mae nifer o raglenni yn cael eu darlledu'n fyw ac mae S4C yn gofyn am isdeitlau byw ar rai o'r rhaglenni hynny e.e. isdeitlau Cymraeg byw ar raglenni cylchgrawn dyddiol (Llun i ddydd Gwener) Heno a Prynhawn Da yn ogystal â'r rhaglen Newyddion nosweithiol (Llun-Gwener). Mae'r isdeitlau Saesneg ar gyfer y cyfresi hyn yn cael eu cynhyrchu gan ddarparwyr trydydd parti ac nid ydynt yn rhan o'r cytundeb yma.

Bydd angen isdeitlau Saesneg byw ar gyfer rhaglenni byw eraill megis darllediadau byw o wahanol ddigwyddiadau e.e. Sioe Frenhinol / Eisteddfod Yr Urdd / yn ogystal â rhaglenni materion cyfoes byw a digwyddiadau chwaraeon.

Mae isdeitlau o raglenni byw yn cael eu cipio trwy feddalwedd a ddarperir ymlaen llaw a'u defnyddio ar raglenni sy'n cael eu hailadrodd neu sydd ar gael ar lwyfannau ar-alw. Bydd y Lot hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Tendrwr llwyddiannus fod yn gyfrifol am:

- Ail-bwrpasu'r ffeiliau isdeitlau sy'n cael eu cipio yn ystod rhaglenni byw a pharatoi ffeiliau newydd ar gyfer y gofynion ail-ddarlledu / ar-alw.

- Cipio ffeiliau a ddarperir gan ddarparwyr isdeitlau trydydd parti e.e. BBC Wales / Tinopolis at yr un diben ag uchod.

Yr Holl Wasanaethau Isdeitlo

Mae gallu cynnig gwasanaeth hyblyg yn seiliedig ar amserlenni cyflwyno’n hanfodol ac felly mae disgwyl i’r Tendrwr llwyddiannus weithio’n agos ag S4C a darparwyr isdeitlau trydydd parti i sicrhau bod yr isdeitlau’n cael eu paratoi oddi mewn i’r amserlenni y penderfynwyd ac y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.

Mae disgwyl i Dendrwyr fod â dealltwriaeth glir o natur y gwasanaeth. Rhaid i’r Tendrwr llwyddiannus fod ag arbenigedd a dealltwriaeth lawn o ofynion y gynulleidfa.

Darperir rhaglenni S4C gan gwmnïau cynhyrchu amrywiol ac mae’r sianel yn darlledu pob math o raglenni o wahanol *genres*. Rhaid i’r isdeitlau adlewyrchu natur y rhaglen ac ni ddylent hepgor yr hyn sy’n cael ei ddweud ar y sgrin.

Ar hyn o bryd mae’r gwasanaeth isdeitlo’n eithrio rhaglenni a gynhyrchir gan y BBC a rhai rhaglenni sy’n rhan o gynnyrch cylchgrawn byw cyfredol S4C e.e. Prynhawn Da a Heno.

Darperir isdeitlau Saesneg ar gyfer rhaglenni unigol Pobol y Cwm gan BBC Cymru (tair pennod yr wythnos fel arfer) – ond bydd angen i'r Tendrwr llwyddiannus gasglu'r rhain ar gyfer y darllediad omnibws wythnosol.

Bydd gofynion hefyd i isdeitlo cynnwys newydd ac archif ymlaen llaw lle byddant yn cael eu cyhoeddi fel bocs-set cyn dyddiadau darlledu penodol.

Disgwylir i'r gwasanaeth fod o'r ansawdd uchaf gyda chywirdeb 100% o isdeitlau, sillafu a gramadeg (wedi'i recordio ymlaen llaw) a chywirdeb bron yn berffaith ar gyfer isdeitlo byw. Bydd angen i'r isdeitlau gyfleu tôn a natur y rhaglen a'i genre. Dylid amseru'n gywir isdeitlau wedi'u recordio ymlaen llaw.

## 1. Nifer yr Oriau i’w Hisdeitlo

Rhagwelir y bydd angen isdeitlau Saesneg ar gyfartaledd o 13 awr yr wythnos o gynnwys wedi'i recordio ymlaen llaw, a bydd angen isdeitlau Cymraeg ar gyfartaledd o 14 awr yr wythnos o gynnwys wedi'i recordio ymlaen llaw. Bydd angen isdeitlau Cymraeg byw ar gyfartaledd o 10 awr yr wythnos o gynnwys byw a bydd tua 250 awr y flwyddyn o gynnwys byw angen isdeitlau Saesneg byw. Mae'r ffigwr wythnosol isdeitlau Saesneg byw yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar ddigwyddiadau byw. Er enghraifft, efallai mai dim ond 4 awr o isdeitlo byw sydd ei angen ar wythnos dawel ym mis Hydref, ond bydd wythnos yr Urdd ym mis Mai / Mehefin yn gofyn am oddeutu 63 awr o isdeitlo Saesneg byw.

Mae’n bwysig nodi y gall nifer yr oriau o isdeitlau yn y Saesneg a’r Gymraeg bob wythnos amrywio +/- 50%.

## 2. Gofynion y Gwasanaeth

### 2.1 Staffio’r Gwasanaeth

Gwahoddir ceisiadau gan Dendrwyr sy'n gallu darparu'r gwasanaeth cyfan a nodir yn Lot 1.

Dylai Tendrwyr fod â nifer digonol o staff sydd â phrofiad perthnasol o ddarparu isdeitlau Saesneg a Chymraeg o ansawdd uchel. Rhaid iddynt fod â sgiliau iaith rhagorol, dealltwriaeth o'r diwydiant darlledu a gwybodaeth eang am anghenion y gynulleidfa. Mae disgwyl i Dendrwyr fod â systemau rheoli priodol yn eu lle i sicrhau gwasanaeth isdeitlo hwylus o safon sy'n gyson uchel a hefyd systemau i sicrhau monitro a gwerthuso eu gwaith.

Dylai Tendrwyr hefyd ystyried darpariaethau hyfforddi ar draws y gwasanaethau gofynnol, gan sicrhau datblygiad parhaus i staff yn unol â thechnoleg newydd, yn ogystal â buddsoddi mewn adnoddau i hyfforddi staff newydd ar draws amserlen y cytundeb i sicrhau cyflenwad parhaus o dalent yn y maes hwn.

## 2.2 Paratoi a Gwylio

Bydd S4C yn trefnu copïau MPEG (neu gyfatebol) ar gyfer y contractwr llwyddiannus a bydd yn trefnu iddynt gael eu hanfon drwy wasanaeth trosglwyddo ffeiliau megis 'Signiant Media Shuttle'. Mewn rhai achosion, darperir copïau MPEG o raglenni a sgriptiau yn uniongyrchol gan y cwmni cynhyrchu.

Bydd rhaid i'r Tendrwr llwyddiannus sicrhau bod ganddo offer priodol ac effeithiol i greu'r isdeitlau a bod ganddo fynediad cadarn a dibynadwy i'r rhyngrwyd, gyda chefnogaeth dechnegol lawn i dderbyn y rhaglenni a chyflwyno'r isdeitlau yn unol â gofynion cyflawni S4C o dro i dro yn ystod cyfnod y cytundeb.

## 2.3 Cyfleu Ffeiliau Isdeitlau

Bydd y gwaith o ddarparu isdeitlau'n cael ei amserlennu yn unol â chyflwyno rhaglenni wedi'u cwblhau i S4C.

Bydd y Tendrwr llwyddiannus yn hyblyg ei agwedd wrth ddarparu oddi mewn i'r canllawiau a bydd rheolwr y cytundeb yn cyfathrebu gofynion S4C.

O dan rai amgylchiadau, bydd rhaglenni'n cael eu cyflwyno'n hwyr gan S4C a/neu'r cynhyrchydd a bydd rhaid i'r Tendrwr llwyddiannus roi blaenoriaeth i ddarpariaeth gyflym ar gyfer y rhaglenni hynny, a gweithio oddi mewn i'r amserlen gyfleu. Dylai'r ymateb i'r tendr fanylu ar sut bydd y Tendrwr yn gweithio'n hyblyg i ymateb i amserlenni darparu hwyr.

Dylid cyflwyno'r holl ffeiliau isdeitlau drwy borth dosbarthu Signiant S4C, oni bai y cytunir yn wahanol gan Arweinydd Gwasanaethau Mynediad S4C cyn eu cyflwyno.

## 2.4 BIST

Mewn rhai achosion a benderfynir ymlaen llaw, bydd rhaid i'r Trwyddedwr llwyddiannus addasu ffeil isdeitlo wreiddiol ar gyfer creu BIST. Byddai angen y ffeil ar gyfer darlledu a hefyd ar gyfer sgrinio arbennig a gwyliau. Ar hyn o bryd, mae opera sebon ddyddiol S4C, Pobol y Cwm, yn cael ei dangos fel Omnibws gyda BIST ar ddyddiau Sul a bydd disgwyl i'r Tendrwr llwyddiannus lunio a pharatoi'r isdeitlau a'r fersiwn BIST drwy weithio'n agos gyda BBC Cymru i sicrhau cywirdeb.

Amcangyfrifir bod y dwyseddau cyfredol ar gyfer BIST yn gyfartaledd o 2.5 awr yr wythnos.

## 2.5 Llwytho ffeiliau Isdeitlo

Bydd gofyn i'r Tendrwr llwyddiannus uwchlwytho'r holl ffeiliau isdeitlau drwy borth cyflenwi gan ddefnyddio 'Signiant Media Shuttle' a llwytho'r ffeiliau i'r rhaglenni perthnasol ar y System Rheoli Darlledu (BMS). Bydd disgwyl i'r Tendrwr llwyddiannus sicrhau bod yr holl ffeiliau wedi'u llwytho i'r system hon ar neu cyn dyddiadau a bennir gan S4C.

## 2.6 Archifo

Dylid cadw pob ffeil isdeitlau a baratowyd ar gyfer S4C mewn archif electronig a'i gysylltu â chronfa ddata fewnol (o fewn BMS S4C). Bydd gofyn i'r Tendrwr llwyddiannus gynorthwyo i reoli ac archifo pob ffeil isdeitlau i'w darlledu ar S4C.

Mae'n ofynnol i'r Tendrwr llwyddiannus storio prif archif isdeitlau, yn ogystal â manylu ar sut / ble y byddent yn storio fersiwn wrth gefn o'r archif.

## 2.7 Offer a Lleoliad

Isdeitlo Byw

Bydd angen i'r Tendr llwyddiannus gyflenwi'r isdeitlo byw o Sgwâr Canolog gan ddefnyddio gofod desg, offer a meddalwedd a gyflenwir gan S4C yn y Sgwâr Canolog. Bydd manyleb yr offer a'r feddalwedd yn y Sgwâr Canolog yn cael ei ddewis gan S4C a bydd cost unrhyw offer a meddalwedd newydd yn cael ei dalu gan S4C.

Bydd S4C yn darparu'r feddalwedd 'Wincaps' sydd ei hangen ar gyfer peiriannau sydd wedi'u lleoli yn Sgwâr Canolog y BBC a ddefnyddir yn ystod gofynion isdeitlo byw.

# 3. Cyfathrebu

Mae S4C yn darparu mynediad i'w BMS sydd â manylion yr amserlen waith arfaethedig er mwyn galluogi'r Tendrwr llwyddiannus i gynllunio a threfnu adnoddau'r gwasanaeth yn effeithiol. Bydd y Tendrwr llwyddiannus yn cael gliniaduron y BBC er mwyn gallu cael mynediad i'r BMS. Bydd y BMS yn cynnwys teitlau rhaglenni, manylion y rhaglenni a dyddiadau cyflwyno disgwyliedig. Bydd S4C hefyd yn cadw mewn cysylltiad dyddiol â'r Tendrwr llwyddiannus i'w hysbysu am unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i'r amserlen. Bydd S4C hefyd yn hysbysu'r Tendrwr llwyddiannus os bydd angen i'r rhaglen gael ei isdeitlo ar ffurf BIST.

Bydd yn ofynnol i'r Tendrwr llwyddiannus gyfarfod â S4C bob chwarter er mwyn adolygu'r gwaith, gwneud newidiadau (os bydd angen) a blaengynllunio wrth drafod amserlenni ar gyfer y cyfnod sy'n dilyn.

Bydd y Tendrwr llwyddiannus yn cynnig ffyrdd ymarferol o fonitro effeithiolrwydd y gwasanaeth yn weithredol, yn dechnegol ac yn greadigol.

# 4. Gwasanaeth o'r Safon Uchaf

Disgwylir i'r gwasanaeth fod o'r safon uchaf gyda chywirdeb 100% o ran isdeitlau, sillafu a gramadeg. Bydd angen i'r isdeitlau gyfleu naws a natur y rhaglen a'i genre. Dylai isdeitlau fod wedi'u hamseru'n gywir.

Bydd angen i'r iaith amrywio o fod yn iaith lafar / iaith syml / iaith ffurfiol, yn dibynnu ar natur y rhaglenni. Dylid ychwanegu cyfeiriadau at sain syml yn ôl yr angen.

**Lot 2 – Gwasanaeth Sain Ddisgrifio S4C**

**Gwybodaeth Gefndirol**

Yn unol â gofynion statudol Deddf Cyfathrebu 2003 a Chod Ofcom ar Wasanaethau Mynediad i Deledu (https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/code-on-television-access-services/cod-ofcom-ar-wasanaethau-mynediad-ar-gyfer-teledu.pdf?v=356731) rhaid i S4C ddarparu gwasanaeth Sain Ddisgrifio i bobl ddall ac sydd â golwg rhannol, fel rhan o'r gwasanaethau atodol ar S4C.

Sylwebaeth lafar yw sain ddisgrifio, sy'n llenwi'r cyfnodau mewn rhaglenni pan na fo deialog. Mae'n galluogi gwylwyr sydd â nam ar eu golwg i ddilyn y rhaglen heb orfod dibynnu ar gymorth rhywun sy'n gallu gweld i esbonio'r plot.

Mae'r sylwebaeth yn cynnwys disgrifiadau o ddigwyddiadau, osgo corff, gwisgoedd a golygfeydd.

Ofcom sy'n gyfrifol am fonitro targedau'r gwasanaeth Sain Ddisgrifio. Targed presennol Ofcom yw 10% o holl ddarllediadau S4C.

Mae S4C yn darlledu dros 115 awr o raglenni Cymraeg bob wythnos ac mae hyn yn cynnwys darllediadau gwreiddiol, ailddarllediadau a ffrydio.

## 1. Y Rhaglenni

### 1.1 Dewis Rhaglenni

S4C fydd yn dewis y rhaglenni Cymraeg y mae angen paratoi sain ddisgrifio ar eu cyfer.

Bydd rhai rhaglenni yn fwy addas ar gyfer sain ddisgrifio nag eraill. Mae rhai yn anaddas am fod gormod o ddeialog parhaus yn y rhaglenni.

Caiff rhai rhaglenni eu dewis am eu bod yn addas iawn ar gyfer pobl ddall a phobl â golwg rhannol a bydd S4C yn sicrhau y caiff amrywiaeth eang o raglenni difyr ei dewis.

Ar hyn o bryd nid yw S4C yn darparu sain ddisgrifiad ar gyfer rhaglenni byw ond mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Tendrwr gynnwys cynlluniau ar gyfer sut y gellir cyflawni hyn o fewn 12 mis cyntaf y cytundeb, gyda chynnydd blynyddol i nifer y rhaglenni byw sy'n cael eu disgrifio yn sain ar draws tymor y cytundeb.

### 1.2 Nifer y Rhaglenni

Mae nifer y rhaglenni y bydd yn ofynnol i'r Tendrwr llwyddiannus eu darparu o dan y cytundeb hwn yn debygol o amrywio, yn dibynnu ar nifer y rhaglenni a ailddarlledir ar S4C.

Mae S4C yn anelu at gyflawni'r targed o 10% o'r holl raglenni a ddarlledir gan S4C ac yn awyddus i gynyddu'r canran yma flwyddyn wrth flwyddyn.

Amcangyfrifir y bydd angen disgrifiadau sain ar gyfer o gwmpas 20 awr (slotiau amser) o raglenni newydd bob mis ond ni all S4C warantu nifer yr oriau. Noder y gall faint o waith sydd ei angen amrywio drwy gydol y flwyddyn, gyda'r haf yn eithaf tawel a chyfnod y

Nadolig yn fwy prysur. Mae hyd y slotiau cynnwys ar gael yma ar wefan cynhyrchu S4C: https://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/canllawiau

## 2. Deunydd a Dosbarthu

### 2.1 Dosbarthu Copïau o Raglenni gan S4C

Bydd S4C yn trefnu copïau MP4 (neu gyfwerth) gyda chod amser wedi'i losgi i mewn ar gyfer y Tendrwr llwyddiannus a bydd yn trefnu i'w hanfon drwy borth dosbarthu fel 'Signiant Media Shuttle'.

Bydd angen i'r Tendrwr llwyddiannus sicrhau bod ganddynt offer priodol ac effeithiol i greu'r ffeiliau WAV a bod ganddynt fynediad cadarn a dibynadwy i'r rhyngrwyd, gyda chefnogaeth dechnegol lawn i dderbyn y rhaglenni a chyflwyno'r sain ddisgrifio yn unol â gofynion cyfleu S4C yn ystod tymor y cytundeb.

Bydd S4C yn cysylltu yn fisol gyda rhestr o ddyddiadau cyfleu'r rhaglenni, a phryd y bydd angen dychwelyd y gwaith i'w ddarlledu.

### 2.2 Cyfleu'r trac Sain Ddisgrifio gan y Tendrwr Llwyddiannus

Disgwylir i'r Tendwr llwyddiannus gyflwyno'r ffeil sain orffenedig mewn da bryd, cyn y dyddiad darlledu.

Bydd gan y Tendrwr llwyddiannus ymagwedd hyblyg i gyflawni o fewn y canllawiau a bydd rheolwr y cytundeb yn cyfathrebu gofynion S4C.

O dan rhai amgylchiadau, bydd rhaglenni'n cael eu cyflwyno'n hwyr gan S4C a/neu'r cynhyrchydd a bydd rhaid i'r Tendrwr llwyddiannus roi blaenoriaeth i ddarpariaeth gyflym ar gyfer y rhaglenni hynny, a gweithio oddi mewn i'r amserlen gyfleu. Dylai'r ymateb i'r tendr fanylu ar sut bydd y Tendrwr yn gweithio'n hyblyg i ymateb i amserlen gyfleu hwyr.

Dylid cyflwyno pob ffeil WAV drwy blatfform fel porth cyflenwi Signiant S4C, oni bai y cytunir yn wahanol gan Arweinydd Gwasanaethau Mynediad S4C cyn eu cyflwyno.

Bydd angen i'r Tendrwr llwyddiannus sicrhau bod y cyflwyniad yn cydymffurfio â chanllawiau technegol S4C, gan sicrhau –

Mae'r ffeil sain orffenedig mewn fformat WAV, gyda dau drac yn unig;

Bod y ffeil sain wedi'i hamgodio fel PCM, gyda chyfradd samplu o 48kHz, ac ar ddyfnder o 24 darn fesul sampl;

Dylai trac 1 gynnwys disgrifiad sain, ar lefel lleferydd arferol (wedi'i gymysgu i gydymffurfio ag EBU R128). Dylai'r trac anelu at gyrraedd uchelder targed disgwyliedig rhaglenni nad ydynt yn fyw, sef -23.0 LUFS (plws / minws 0.5LU), gydag uchafswm lefel Gwir Brig a argymhellir o -3dBTP.

Dylai trac 2 gynnwys y signal rheoli Pan & Fade (ar lefel o -12dB, o'i gymharu â'r lefel Cyfeirio Sain Digidol ar -18 dBFS).

Mae canllawiau technegol llawn ar gyflwyno rhaglenni i S4C i'w gweld yma ar wefan cynhyrchu S4C: https://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/canllawiau

Sylwer, ar hyn o bryd nid yw S4C yn derbyn rhaglenni wedi'u cyflwyno gyda sain ddisgrifiad wedi'i ymgorffori, oni bai bod S4C wedi cytuno ag Arweinydd Gwasanaethau Mynediad S4C.

Dylid cyflwyno'r holl ffeiliau sain gorffenedig drwy borth cyflenwi Signiant S4C, oni bai cytunir fel arall gan Arweinydd Gwasanaethau Mynediad S4C cyn eu cyflwyno.

**3. Staffio’r Gwasanaeth**

Gofynion allweddol y gwasanaeth sain ddisgrifio yw paratoi, sgriptio, adrodd a chynhyrchu trac sain. Mae’n rhaid i’r Tendrwr llwyddiannus allu cyflawni pob un o ofynion allweddol y gwasanaeth.

Mae S4C yn disgwyl i un person adrodd y trac sain ar gyfer y rhaglen gyfan. Dylai’r person sy’n disgrifio fod yn addas ar gyfer y math o raglen a byddid yn disgwyl parhad o fewn cyfres. Mae S4C yn disgwyl i’r Tendrwr llwyddiannus allu cynnig amrywiaeth o leisiau i ddarparu’r gwasanaeth cyfan.

Mae S4C yn disgwyl i’r Tendrwr llwyddiannus allu dangos bod unigolion craidd y gwasanaeth yn meddu ar brofiad o waith radio, dybio neu lefaru. Mae’n hanfodol bod yr iaith a ddefnyddir yn y sgript a’r hyn a adroddir o’r safon uchaf bosibl.

**4. Cyfathrebu**

Bydd S4C yn rhoi rhestr fisol o’r rhaglenni hynny y mae S4C yn dymuno cael sain ddisgrifio ar eu cyfer i’r Tendrwr llwyddiannus sawl wythnos ymlaen llaw. Caiff S4C amrywio’r rhestr o raglenni i’w sain ddisgrifio o bryd i’w gilydd o ganlyniad i newidiadau a all ddigwydd i’r amserlen a newidiadau i’r amserlen dosbarthu tapiau. Yn yr achosion hyn, bydd S4C yn hysbysu’r Tendrwr llwyddiannus drwy e-bost neu dros y ffôn cyn gynted ag y bo modd.

**Lot 3 - Gwasanaeth Arwyddeg ar y Sgrin S4C**

**Gwybodaeth Gefndirol**

Yn unol â gofynion statudol Deddf Cyfathrebu 2003 a Chod Ofcom ar Wasanaethau Mynediad i Deledu (https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/code-on-television-access-services/cod-ofcom-ar-wasanaethau-mynediad-ar-gyfer-teledu.pdf?v=356731) mae'n rhaid i S4C ddarparu gwasanaeth arwyddeg i bobl fyddar neu drwm eu clyw, fel rhan o'r gwasanaethau atodol ar S4C.

Ni all y rhan fwyaf o wylwyr byddar ddilyn y deialog na'r seiniau sy'n hanfodol i ddeall a mwynhau'r rhaglen. Mae anghenion pobl fyddar a thrwm eu clyw yn amrywio o arwyddeg (BSL) i isdeitlau neu sain glir.

Mae rhai gwylwyr byddar yn ei chael hi'n anodd deall y wybodaeth a gyflwynir fel isdeitlau yn llawn ac felly maent yn cael budd mawr o arwyddeg.

## 1. Y Rhaglenni

### 1.1 Dewis Rhaglenni

S4C fydd yn dewis y rhaglenni Cymraeg y mae angen gwasanaeth arwyddeg ar eu cyfer.

Ar hyn o bryd, mae gan S4C slotiau amser arwyddeg ar ddydd Sadwrn ac ail-ddarllediadau canol dydd yn ystod yr wythnos. Bydd S4C yn sicrhau y caiff amrywiaeth eang o raglenni difyr eu dewis. Mae yna hefyd adran wedi'i arwyddo ar S4C Clic.

Ar hyn o bryd, nid yw S4C yn cynnig y gwasanaeth arwyddeg ar raglenni sy'n cyrraedd yn agos iawn i'r dyddiad darlledu nac ar raglenni byw ond byddai unrhyw sylwadau ynglŷn â sut y gellid cyflawni hyn yn ddefnyddiol.

### 1.2 Nifer y Rhaglenni

Mae nifer y rhaglenni y bydd yn ofynnol i'r Tendrwr llwyddiannus eu darparu o dan y cytundeb hwn yn debygol o amrywio, yn dibynnu ar hyd y slotiau amser arwyddeg. Gall nifer o ffactorau effeithio ar hyd y slotiau amser – o ddigwyddiadau byw megis eisteddfodau a sioeau i gemau rygbi a phêl-droed. Mae hefyd yn dibynnu ar batrwm ailddarllediadau ar S4C.

Mae S4C yn anelu at gyflawni'r targed o ddarparu gwasanaeth arwyddeg ar 5% o'r holl raglenni a ddarlledir gan S4C.

Amcangyfrifir y bydd rhwng 35-45 awr (hyd slot) angen arwyddeg yn ystod chwarter cyntaf y cytundeb a rhwng 20-35 awr (hyd slot) yn ystod yr ail chwarter. Sylwch fod hyd gwirioneddol y rhaglenni i'w gweld yma ar wefan cynhyrchu S4C: https://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/canllawiau

Ni ellir rhoi gwybodaeth am nifer yr oriau y mae angen paratoi arwyddeg ar eu cyfer am weddill y cytundeb y tu hwnt i'r targed arwyddeg agored o 5% o'r holl raglenni a ddarlledir gan S4C.

## 2. Deunydd a Dosbarthu

## 2.1 Cyfleu Copïau o Raglenni gan S4C

Bydd S4C yn darparu i'r Tendrwr llwyddiannus ffeiliau MXF o'r rhaglenni i'w harwyddo trwy wasanaeth porth dosbarthu fel 'Signiant Media Shuttle' ac yn anfon ffeil isdeitlau mewn fformat .stl ar e-bost. Hefyd gall S4C anfon ffeil mpeg o'r rhaglenni drwy wasanaeth trosglwyddo ffeiliau os oes angen.

Bydd angen i'r Tendrwr llwyddiannus sicrhau bod ganddynt offer priodol ac effeithiol i greu'r fersiynau wedi'u arwyddo ar y sgrin a bod ganddynt fynediad cadarn a dibynadwy i'r rhyngrwyd, gyda chefnogaeth dechnegol lawn i dderbyn y rhaglenni a chyflwyno'r fersiwn wedi ei arwyddo yn unol â gofynion cyflawni S4C yn ystod tymor y cytundeb.

Gall y deunydd darparu newid yn ystod cyfnod y cytundeb.

Fel rheol mae rhaglenni ar gael i'r Tendrwr llwyddiannus 4 i 7 diwrnod cyn y dyddiad darlledu. Bydd rhai rhaglenni ar gael yn gynharach.

## 2.2 Cyfleu'r Cynnwys wedi ei Arwyddo

Bydd gan y Tendrwr llwyddiannus ymagwedd hyblyg o gyflawni o fewn y canllawiau a bydd rheolwr y cytundeb yn cyfathrebu gofynion S4C.

Bydd disgwyl i'r Tendr llwyddiannus gyflwyno'r ffeiliau AS-11 gorffenedig ddau ddiwrnod cyn y dyddiad darlledu.

Disgwylir i'r ffeil arwyddeg gydymffurfio â chanllawiau technegol S4C sydd i'w gweld yma ar wefan cynhyrchu S4C:
https://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/canllawiau

Dylai delwedd y cyfieithydd ymddangos ar ochr dde'r sgrin ac ni ddylai feddiannu mwy nag un chweched o'r sgrin.

Dylai'r cyfieithydd ddefnyddio technegau addas i dynnu sylw at bwy sy'n siarad a thynnu sylw at effeithiau sain sylweddol.

Dylai'r metadata AS-11 yn y ffeil arwyddeg adlewyrchu'r maes 'Arwyddeg' fel Ydw, a dewis BSL yn y maes iaith.

Dylid cyflwyno'r holl ffeiliau wedi'u arwyddo drwy borth cyflenwi fel 'Signiant Media Shuttle', oni bai y cytunir fel arall gan Arweinydd Gwasanaethau Mynediad S4C cyn eu cyflwyno.

## 3. Staffio'r Gwasanaeth

Gofynion allweddol y gwasanaeth arwyddeg yw paratoi, sgriptio, adrodd a chynhyrchu copi o'r rhaglen sy'n cynnwys arwyddeg ar y sgrin.

Dylai dealltwriaeth y cyfieithwyr o arwyddeg gyrraedd Safonau Cofrestru Dehonglwyr Cymwysedig fel y'u nodir gan 'Signature (signature.org.uk).

Mae'n bwysig iawn bod arwyddwyr yn ymwybodol o arwyddion Cymraeg rhanbarthol ac yn eu defnyddio oherwydd y bydd y rhaglenni y maent yn eu harwyddo o natur Gymreig a hefyd oherwydd y bydd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn Gymry.

## 4. Cyfathrebu

Bydd S4C yn rhoi rhestr fisol o’r rhaglenni y mae S4C yn dymuno cael Arwyddeg eu cyfer i’r contractwr llwyddiannus sawl wythnos ymlaen llaw.

Caiff S4C amrywio’r rhestr fisol hon o bryd i’w gilydd o ganlyniad i newidiadau a all ddigwydd i’r amserlen a newidiadau i’r amserlen dosbarthu deunydd. Yn yr achosion hyn, bydd S4C yn hysbysu’r cwmni llwyddiannus drwy e-bost neu dros y ffôn cyn gynted ag y bo modd.

**ATODIAD 4**

**FFURFLEN WYBODAETH SYLFAENOL**

(Gweler y ddogfen ynghlwm)